YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1873. [RHIF 2.

Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

Y CREFYDDAU ETHNIG.

"Proffwydi, y rhai oedd er dechreuad y byd."—Luc i. 70.
"Oherwydd yr hyn a ellir wybod am Dduw sydd eglur ynddynt hwy, canys Duw a'i heglurodd iddynt."—RHUF. i. 19.

"In all ages
Every human heart is human;
And in even savage bosoms
There are longings, yearnings, strivings
For the good they comprehend not,
And the feeble hands and helpless,
Groping blindly in the darkness
Touch God's right hand in that darkness,
And are lifted up and strengthened."
Longfellow.

SYLWADAU RHAGARWEINIOL.

WRTH adolygu hanesyddiaeth y byd yn mhob oes a gwlad, deuwn yn naturiol i'r casgliad mai un o'r elfenau sydd wedi cymmeryd y rhan fwyaf pwysig yn helyntion gwahanol genedlocdd, ac wedi cynnyrchu y dylanwad mwyaf nerthol ar eu harferion a'u sefydliadau, yw yr elfen grefyddol. Yr egwyddor yma sydd wedi bod wrth wraidd y rhar fwyaf o'r symmudiadau a dueddent i wareiddio a dyrchafu yr hil ddynol. Mae ei hawdurdod hi wedi cadarnhau a chyssegru trefniadau gwladwriaethol llawer teyrnas, fel ag yr ydym yn cael yn fynych fod dyledswyddau ei phrif lywodraethwr a phrif swyddog ei chrefydd yn cael eu cyssylltu â'u gilydd: y brenin a'r offeiriad yn cael eu cyfuno yn yr un person. Mae athroniaeth, dysg, a'r celfyddydau yn ddyledus

iddi am eu prif gefnogaeth; ac mae, fel rheol, wedi tueddu i feithrin yr yspryd hwnw sydd yn barod i gydymdeimlo â'r rhai sydd yn dyoddef, ac i ymhyfrydu mewn gweithredoedd o garedigrwydd a thosturi. O'r ochr arall, cawn fod nwydau gwaethaf y galon wedi eu cynhyrfu yn enw crefydd, iawnderau mwyaf cyssegredig dynoliaeth wedi eu dibrisio er amddiffyn ei hawliau, a rhyfeloedd mwyaf creulawn wedi eu cario yn mlaen er sicrhau ei llwyddiant ac helaethu ei therfynau. Mae pob traddodiad, pob hanes, pob llenyddiaeth, a phob celfyddyd yn tystio nid yn unig i'w gallu a'i dylanwad, ond ei bod hefyd yn elfen ddechreuol, gynhenid, a chyffredinol yn y natur ddynol. Fel ag y mae dynolryw yn mhob oes, wedi eu cymhell gan deimlad naturiol i ymffurfio yn deuluoedd, yn llwythau, ac yn deyrnasoedd, ac yn cael boddlonrwydd i'w tueddiadau cymdeithasol mewn undeb â'u gilydd, felly mae'r egwyddor grefyddol wedi bod yn eu cyffroi i geisio cymmundeb â gallu uwch a gwell nâ hwy eu hunain, ac i ymbwyso ar rywbeth anweledig, pan oedd y gweledig yn methu a'u boddloni. Nad pa mor isel mae dynion mewn gwareiddiad, maent yn teimlo yr angen yma am Dduw; nad pa mor uchel mewn gwybodaeth a diwylliant, ni fydd eu dynoliaeth yn gyflawn os bydd yr angen yma yn cael ei hesgeuluso.

Gwaith cynnefin y meddwl erioed yw synfyfyrio, breuddwydio, ac ymbalfalu am Dduw; ac mae y teimladau yma mor hen âg angenion, trallodion, ofnau, a gobeithion dynol. Wrth edrych ar yr anwariad yn plygu yn isel o flaen ei eilun o bren neu faen, ac yn erfyn mewn iaith annghelfydd am ffafr iddo ei hun yn erbyn ei elyn, neu am gymhorth yn ei gyfyngder, yr ydym yn gweled syched yr yspryd am ei Dduw. Yn yr haul, yn ffurfafen ddysglaer y nefoedd, yn nghyfnewidiadau y tymhorau, yn rhuad y gwyntoedd, yn nhwrf y daran, yn y fellten yn ymsaethu o'r cwmmwl, ac yn y tònau yn rhuthro yn erbyn y graig, yr oedd ein cyndeidiau yn yr hen oesoedd yn teimlo y gallu anweledig, ac yn cydnabod y presenoldeb goruwchnaturiol yn treiddio trwy eu heneidiau, ac yn eu cymhell i synu ac i addoli. Ac mae y Pagan tywyll, druan, yn ei ffordd isel ef, yn ymgrymmu o flaen y mawredd anweledig—o flaen y rhywbeth uwch a gwell hwnw nad yw ef etto wedi cael un enw iddo—mewn ofn, ac feallai ambell waith gyda rhywfaint o ymddiried.

Heblaw dylanwad dirgel idd gweithrediadau y greadigaeth allanol, er deffroi yn y galon y syniad am allu uwchlaw y gweledig, nid yw Duw ei hun erioed wedi ymddyeithrio oddiwrth breswylfeydd dynolryw; ond mae ei lais dystaw main wedi bod yn llefaru wrth bob calon ystyriol, ac yn rhoddi arwyddion o'i bresenoldeb a'i agosrwydd at bob un sydd yn barod i chwilio am dano ac i'w dderbyn. Felly, gwelwn yn addoliad anmherffaith yr anwariad, yn syndod y plentyn pan y mae yn dechreu agor ei lygaid i weled rhyfeddodau y byd, ac yn mynudau mwyaf sobr ein profiad personol ein hunain, pan mae'r gofyniad yn codi,—Pa beth, pa le, a phaham yr ydym? gwelwn deimlad anwrthwynebol o rywbeth tuhwnt a thucefn i'r gweledig yn cael ei ddadgudd'o, yr ymwybodolrwydd o allu ac ewyllys gyffelyb i'r

eiddo ein hunain, er nas gallwn eu hamgyffred na'u rheoli. Y teimlad yma o bresenoldeb anweledig, ac o ymddibyniaeth arno, yw elfen hanfodol crefydd; ac er ei fod yn ddall ac yn anaddfed yn ei ymddangosiadau cyntaf, etto addfeda gyda gwareiddiad dynoliaeth, a chryfhâ gyda chynnydd yr enaid. Gall fod yr addoliad ar y cyntaf yn goel-grefyddol ac yn blentynaidd, y syniadau am y Goruchaf yn annheilwng, y defodau yn dywyll a halogedig; etto, mae'r *anian* grefyddol yna, yn dyheu yn barhaus am y sylwedd mawr, er ei fod yn anmherffaith yn ei amlygiad, ac yn chwilio yn y tywyllwch am ei wrthrych. Mae yna gynhyrfiad dechreuol y teimlad hwnw, a chwydda i fyny mewn amser addfetach i addoliad y gwir a'r bywiol Dduw mewn yspryd a gwirionedd. Mae yna y gydsain gyntaf o'r cydgordiad hwnw â phethau dwyfol a ddyrchafai Dafydd ac Esaiah yn eu ehediadau uchel o ffydd ac ymddiried yn y Duw byw. Nid yw holl lyfrau cyssegredig y byd ond cofnodion o wahanol agweddau y teimlad hwn, ac o brofiadau y galon ddynol, pan mae yspryd Duw yn boddloni ei hangenion dyfnaf â llewyrchiadau newydd o'r gwirionedd. Gall y teimlad yma sydd yn cynnwys hanfod crefydd fodoli, ac mae wedi bodoli, heb gymhorth nac awdurdod unrhyw lyfr. Nid yw dynion yn bwyta ac yn yfed oblegyd fod llyfrau ar anianyddiaeth y corff yn eu dysgu fod ymborth yn angenrheidiol er eu cynhaliaeth; ond maent yn bwyta ac yn yfed o herwydd fod newyn a syched arnynt. Felly, nid yw dynion yn addoli ac yn ceisio cymmundeb â Duw o herwydd eu bod yn cael eu gorchymmyn mewn llyfrau i wneuthur hyny; ond am fod eu "cnawd a'u calon" yn gwaeddu am y Duw byw. Felly, nid yw crefydd yn sylfaenedig ar lyfr; a phe byddai holl gyfundrefnau crefyddol y byd yn cael eu dinystrio, a'r holl lyfrau cyssegredig yn cael eu gwneyd yn goelcerth, a phob *trace* o grefyddau blaenorol yn cael eu dileu oddiar lyfr coffadwriaeth y meddwl dynol, ein cred yw, na fyddai diwedd ar grefydd,—byddai syched yr enaid yn ein harwain ni wed'yn mewn ymchwiliad pryderus arall am Dduw; llais miloedd o galonau wed'yn fyddai:—"O na wyddwn pa le y cawn ef, fel yr ymddiriedwn ac yr ymbwyswn arno."

Fel ag y mae'r anian grefyddol yn bodoli yn gyffredinol, felly cawn hefyd fod yr un syniadau gwreiddiol am grefydd yn ffynu mwy neu lai yn mhlith pob cenedl sydd wedi cyrhaedd rhyw radd o wareiddiad. Mae Duwinyddiaeth Gymharol (*Comparative Theology*) yn dysgu fod erthyglau mwyaf pwysig crefydd yn eiddo cyffredinol dynoliaeth. Dywed Max Müller* mai y syniadau sylfaenol yma ydynt:—Y teimlad o Dduw, y teimlad o wendid ac ymddibyniaeth ddynol, cred yn llywodraeth ddwyfol y byd, gwahaniaeth rhwng da a drwg, a gobaith am fywyd gwell. Er fe ddichon nad ydynt gyda'u gilydd yn perthyn i bob crefydd, ac er mai rhai o honynt yn unig sydd yn cael y lle mwyaf pwysig ar yr un amser, tra mae y rhai ereill yn myned o'r golwg; etto, fel y sylwa Max Müller, cyfodant o un i un i'r wyneb, a thueddant drachefn a thrachefn i gymmeryd i fyny eu ffurf berffaith.

* "Chips from a German Workshop," Vol. I., p. x. Preface.

Dywed yn mhellach:—"Os nad oeddent yn ffurfio rhan o etifeddiaeth ddechreuol yr enaid dynol, y buasai crefydd ei hunan yn beth anmhossibl."

Oddiar yr elfen ddechreuol yma, mae gwahanol grefyddau wedi cyfodi, yn cyfateb i agweddau gwahanol y meddwl dynol. Daeth y teimlad crefyddol yma i'r amlwg mewn amrywiaeth o ffurfiau, ac y mae yn rhaid eu priodoli i nodweddion ac arferion gwahanol genedloedd, i'w tueddiadau etifeddol, ac i sefyllfa eu gwareiddiad. O ganlyniad, yr ydym yn cael yn hanes y byd, luaws o grefyddau yn gwahaniaethu yn mhell oddiwrth eu gilydd yn eu cymmeriad a'u dylanwad, ac yn amrywio yn ngraddau eu perffeithrwydd, o *Fetichism* anwariaid Ynysoedd Mor y Deheu i fyny at grefydd ysprydol y Cristion goleuedig.

Rhenir crefyddau y byd yn ddau ddosparth, yn ol fel y maent yn cydnabod un Duw, neu lawer o dduwiau. I'r dosparth blaenaf y perthyn Iuddewaeth, Cristionogaeth, a Mahometaniaeth; ac i'r ail, crefyddau'r Aifft, Groeg, Rhufain, Persia, China, India, &c. Mae y rhan fwyaf o'r rhai uchod yn grefyddau *ethnig*; hyny yw, yn cael eu cyfyngu bob un i genedl unigol, a thufewn i derfynau rhyw wlad neillduol. Nid oes un duedd ynddynt i ymledu yn mhlith cenedloedd ereill, ac i ddyfod yn gyffredinol. Mae crefydd Confucius yn perthyn i'r Chineaid, a chyfyngir hi i China; ac y mae wedi bod yn grefydd y wlad hono am yn agos i ddwy fil a hanner o flynyddau. Gellir dweyd yr un peth am *Frahmaniaeth* neu grefydd yr Hindwaid. Mae ei llyfrau cyssegredig yn bodoli er ys rhagor nâ thair mil o flynyddau. Proffesir hi gan ddim llai nâ 150 o filiynau o bobl; ac er ei bod yn grefydd ddylanwadol a phwysig yn India, nid yw erioed wedi dangos un duedd, na dymuniad, i sefydlu ei hun tuallan i derfynau ei hen breswylfeydd. Yr oedd crefydd Zoroaster unwaith yn cael ei phroffesu gan genedl a fu dros hir amser yn genedl lywodraethol y byd, sef y Persiaid; ond er iddynt orchfygu llawer o deyrnasoedd, ac er fod eu llywodraeth yn estynedig dros lawer o wledydd a chenedloedd, etto ni lwyddodd eu crefydd i ymledu yn mhlith y rhai hyn, ond parhaodd i fod yn gyfyngedig iddynt hwy eu hunain; ac yn awr, nid yw ond crefydd ychydig filoedd o bobl, sef y Parsees, neu olafiaid yr hen Bersiaid. Yn yr un modd mae crefyddau yr Aifft, Groeg, yr Iuddewon, Mahomet, a Buddha, yn fwy neu lai yn grefyddau ethnig.

O'r ochr arall, mae Cristionogaeth oddiar ei sylfaeniad cyntaf wedi dangos tuedd i ymledu tuhwnt i'w therfynau dechreuol, ac i ddyfod yn gyffredinol. Commissiwn Iesu Grist i'w ddysgyblion oedd:—"Pregethwch yr Efengyl i bob creadur;" ac mewn canlyniad i hyny, mae wedi estyn ei llywodraeth dros genedloedd lawer, ac wedi ennill canlynwyr yn mhob rhan o'r ddaear. Gellir dweyd fod yr hyn a gymmerodd le ar ddydd y Pentecost, pan oedd yr Apostolion yn pregethu yr Efengyl, fel yr oeddent yn cael eu deall gan bob cenedl oedd yn eu gwrandaw, yn cymmeryd lle etto yn mhob gwlad—Cristionogaeth yn cael ei chyhoeddi yn mhob iaith, a'i haddasu ar gyfer nodweddion amrywiol gwahanol genedloedd.

G. I.

CYFLAFAREDDIAD RHWNG TEYRNASOEDD;

NEU,

Y DYMUNOLDEB A'R POSSIBLRWYDD I OCHELYD POB RHYFEL RHWNG TEYRNASOEDD TRWY GYFLAFAREDDIAD.

Disgwyliwn mai un o'r prif bynciau y gelwir y senedd-dymhor presenol i'w ystyried, ar ol pwnc addysg yr Iwerddon, fydd: Y priodoldeb o gymmeryd Cyflafareddiad fel moddion i benderfynu pob ymrysonau a ddichon gyfodi o hyn allan rhwng teyrnas a theyrnas. Bydd yr areithiau ar y pwnc, yn ddiau, yn llawn dyddordeb, ac yn teilyngu sylw difrifolaf a chyffredinol y deyrnas, canys byddant yn areithiau mewn cyssylltiad â mudiad sydd yn dwyn perthynas agos nid yn unig â'n cartref ynysol ein hunain, ond hefyd â'r holl fyd gwareiddiedig. Nid ydym yn amheu am foment na dderbynia'r mesur ffafr a nawdd parod ac unfrydol y llywodraeth; er hyny, bydd anhawsderau mawrion ar y ffordd, yn benaf mewn cyssylltiad â'r egwyddorion a'r cynlluniau trwy y rhai y dichon iddo gael ei gario allan yn llwyddianus —mewn dyfeisio cyfreithiau rheoleiddiol, a gosod i lawr derfynau awdurdod y llys cyflafareddol. Cyfyd, yn ddigon tebyg, rhai pynciau dadleuol yn y dyfodol, megys y maent wedi gwneuthur mewn amseroedd blaenorol—pynciau ag y bydd yn anmhossibl eu penderfynu i foddlonrwydd cyffredinol, hyd yn nod gan ddoethineb unedig prif gyfreithwyr y byd; ond etto, mewn perthynas i'r pynciau hyn, bydd y perygl o'u gadael i'w penderfynu trwy gyflafareddiad yn lawer llai pwysig nâ'r drygau a gynnyrchid yn annocheladwy gan ryfel. Ac yma, mae'r gofyniadau canlynol yn naturiol yn ymgynnyg i ni:—A fydd i'r teyrnasoedd yn gyffredinol roddi eu cydsyniad i dderbyn y cynllun yma er penderfynu pob gwahaniaethau ddichon godi yn eu plith? Os felly, fel mae'n debygol y gwnant, a raid ymlynu wrth delerau'r cytundeb ar bob achlysur dyfodol; neu, i osod y cwestiwn mewn ffurf arall, a fydd penderfyniadau y bwrdd cyflafareddol yn derfynol? hyny yw, a fydd y cynllun trwy yr hwn yr ydys i benderfynu pob ymryson, yn un heb eithriadau? Beth fydd natur yr eithriadau, os bydd rhai? O dan ba amgylchiadau y gellir ystyried cyflafareddiad yn aneffeithiol? A yw cyflafareddiad i gael ei ddefnyddio i benderfynu ymrysonau â chenedloedd anwaraidd?—â thrigolion Madagascar, er enghraifft. Ag edrych yn ol ar yr amser a aeth heibio, a allasai rhyfel Abyssinia gael ei rwystro trwy gyflafareddiad? Pa effaith a gawsai mewn cyssylltiad â'r rhyfel dychrynllyd diweddar ar y Cyfandir? Gellir, o bossibl, gosod pynciau mewn perthynas i golledion, neu ffiniau, dan reolaeth cyflafareddiad; ond a ellir felly boddloni anrhydedd ac uchelgais cenedlaethol? Cyfarfyddir âg anhawsderau nid bychain cyn cael penderfyniad boddhaol ac ymarferol ar y cwestiwn yma; etto, dylid gwneuthur yr ymdrech. Ni ddylid caniatau i ddim sefyll yn rhwystr ar y ffordd, yn neillduol pan yr ydys i benderfynu yn nghylch pynciau pwysig bywyd a marwolaeth. Nid yw'r byd mwyach wedi ei oblygu yn nhywyllwch caddugol y

canol oesau ; ond, yn hytrach, ymffrostia yn y safon uchel o wareiddiad, diwylliant, a chynnydd y mae wedi ei gyrhaedd. Mae goleuni gwyddoniaeth (*science*) yn ei holl agweddau, yn myned rhag ei flaen yn gyflym yn ei nerth a'i eglurdeb. Helaethir terfynau gwybodaeth bob dydd, tra y mae anwybodaeth yn raddol yn diflanu, ac ar y ffordd i gael ei hymlid ymaith yn llwyr. Collir golwg yn fuan ar yr ofergoeliaeth a'r barbareidd-dra oeddynt yn cymmylu ac yn gwarthruddo yr amser a fu. Mae deddfau a threfn gymdeithasol yn ennill ystyr newydd a mwy goruchel, ac yn cael eu cydnabod yn fwy llwyr a chyffredinol, fel yn anhebgorol angenrheidiol er hyrwyddo gwelliant a dyrchafiad yr hil ddynol. "*Might is right*"—"Trechaf treisied, gwanaf gwaedded," oedd y rheol unwaith ; ond nid yw felly mwy. Mae y fath egwyddor yn awr, yn wrthwynebol i lais dynoliaeth ac i synwyr cyffredin y byd, ac yn colli ei gafael yn gyflym ar y meddwl dynol. Fe ddysg dynion i felldithio rhyfel nid yn unig fel arferiad bechadurus ac annynol,—arferiad mor farbaraidd yn ei dechreuad ag yw yn ddinystriol yn ei chanlyniadau,—ond fel arferiad sydd yn warth i wareiddiad a chynnydd tybiedig y byd, ac yn eu gwneuthur yn watwar ac yn *sham*.

Trwy fabwysiadu y dull yma, gellir gochelyd yr arferiad o benderfynu cwerylon trwy eu hymladd allan ; ac os na fydd hyny yn foddhaol ar bob achlysur, etto bydd yn y rhan amlaf o honynt. Penderfynwyd pwnc yr Alabama yn ddiweddar yn ol y dull yma ; ac er nad oedd y ddedfryd yn gwbl yn ffafr Prydain Fawr ; etto, nis gallwn lai na llawenhau o herwydd terfyniad boddhaol a chyfeillgar yr achos hwnw. Yn awr, gadawer i ni aros am fynud i ystyried beth pe byddai y ddwy genedl yma, yn lle dewis y dull hwn o benderfynu y cweryl, yn appelio at arfau ! Mor ofnadwy fyddai y canlyniadau i fywyd ac i eiddo, heb ddywedyd dim am draul aruthrol y fath ryfel. Gyda golwg ar Ffrainc a Prwssia, mae yn wahanol. Nid amcan y ryfel hwnw oedd cywiro colledion, na cheisio iawn o herwydd troseddu ar diriogaethau'r naill y llall ; ond tarddodd oddiar genfigen, gelyniaeth, a syniadaeth cyfeiliornus am anrhydedd cenhedlaethol. Mor bell âg oedd a fynai Prwssia â'r achos, diamheu y gellid dwyn y cweryl i derfyniad heddychol trwy gyflafareddiad. Nid felly Ffrainc. "Rhyfel hyd y carn, a dim ond rhyfel," oedd ei chri hi. Mae rhai creaduriaid ar ol gorphwys, neu ar ol rhyw branciau chwareus, yn gorfod cymmeryd math o ysgydwad da er mwyn bywiocâu neu lonyddu eu hunain. Mae'r Ffrancod, fel pobl, yn ddiarebol o ansefydlog, o amser i amser yn ddarostyngedig, fel y dywedir, i *fits and starts*. Mae'r Yspaeniaid yn debyg iddynt yn hyny. Yr oedd y tymhor hir o lwyddiant a heddwch, dan lywyddiaeth Napoleon, wedi gyru'r Ffrancod yn wallgof. Yr oedd yn rhaid cymmeryd rhywbeth mewn llaw,—yn rhaid i ryw orchest fawr gael ei chyflawni. Pan gyfododd yr amrafael yn nghylch pwy oedd i esgyn gorsedd Yspaen, yr oedd eu brwdfrydedd cenhedlaethol wedi cyrhaedd ei nôd uwchaf. Dyma gyfleusdra ardderchog i ddangos eu gallu a boddloni eu huchelgais,—cyfleusdra ag oedd yn addaw dyrchafu gogoniant Ffrainc yn uwch nâg y bu

erioed o'r blaen. Yr oedd cenedloedd ereill i gilio i'r cysgod yn mhresenoldeb ei llewyrch hi. Gorfodwyd Napoleon i ufuddhau i lais ei wlad—gorfodwyd, meddwn, oblegyd ni ymgymmerodd â'r rhyfel yn wirfoddol. Ni feiddiai wrthwynebu. Yr oedd yn rhaid iddo ddewis rhwng dau beth—rhyfel neu fforffedu ei orsedd. Nid oedd yn barod i roddi i fyny ei orsedd; nid yn gymmaint, feallai, ar ei gyfrif ei hun, ond er mwyn ei unig fab. O ganlyniad, darfu iddo, gydag un o'r byddinoedd ardderchocaf yn Ewrop, ruthro i ryfel, canlyniadau dinystriol yr hwn ydynt adnabyddus i bawb.

Yn awr, y cwestiwn yw, a fuasai cyflafareddiad yn effeithiol yn yr achos hwn? Ymddengys hytrach yn amheus; etto, nid yw achosion o'r fath hyn tuallan i gylch cyflafareddiad. Rhaid cofio wrth ystyried cyflafareddiad rhwng teyrnasoedd, ein bod yn golygu fod yr holl genedloedd wedi ymgyfammodi â'u gilydd mewn math o gynghrair. Pan fyddo anhawsderau pwysig yn ymgodi, rhaid galw'r llys cyflafareddol yn nghyd. Cynnwysa'r llys hwn gynrychiolwyr y gwahanol genhedloedd ydynt mewn cynghrair, yn gystal â chynrychiolwyr y pleidiau ydynt mewn amrafael â'u gilydd. Gosodir yr achos o flaen y llys hwn, ac yn naturiol, derbynia'r ystyriaeth ddifrifolaf. Os rhydd y ddedfryd foddlonrwydd cyffredinol, ac os carir ef allan yn ffyddlawn, ni bydd galw am un sylw ychwanegol. Ond o'r tu arall, mewn achos lle bydd y cweryl rhwng dwy genedl yn unig, os bydd i un o honynt wrthod glynu wrth y penderfyniad, er yn flaenorol wedi ei gymmeradwyo yn y llys fel yn gyfiawn ac yn anrhydeddus; yna, ymddengys mai y peth goreu fydd i'r holl genhedloedd ereill uno yn nghyd i orfodi derbyniad y telerau, a pheri i'r genhedl wrthnysig i lynu wrthynt. Pe carid cynllun felly allan yn fanwl ac yn ol y lythyren, diau genym y gwelem y cwestiwn wedi ei benderfynu yn fuan.

Etto, mewn cyssylltiad â chyflafareddiad rhwng teyrnasoedd, fel yr ydys wedi dywedyd yn barod, fe gynnygir fod pob achos o amrafael ac annghydfod a ddichon yn y diwedd gynhyrfu rhyfel, gael ei ddwyn o flaen y llys, yr hwn a ddylai fod yn fath o Areopagus yn ystyr uwchaf y gair. Dywedir wrthym fod yr hen Areopagus, llys yn Athen, yn enwog am y cyfiawnder a'r anmhleidgarwch a nodweddent ei weinyddiad. Mae yn rhaid i lys cyflafareddiad fod hefyd yn deg ac anmhleidgar; os amgen, ni ettyb y dyben uchel y bwriadwyd ef iddo. Os dygwydd iddo fod yn annheg ac yn bleidgar, pa gynllun ellir fabwysiadu yn y fath amgylchiad? Gellir awgrymu amryw, ond fe ochelir y perygl yma i raddau helaeth gan ystyriaeth o'r hyn a all ddygwydd mewn amser dyfodol. Dylanwada rhagolygon o'r fath hyn yn fawr ar bob plaid i fod yn deg yn eu trafodaeth â'u gilydd—i wneuthur i ereill fel y dymunent i ereill wneuthur iddynt hwy, hyd yn nod pan y dichon i gymhelliadau ereill gael eu gwrthod a'u hesgeuluso. Heblaw hyny, mae genym sail i gredu y byddai canlyniadau gresynus rhyfel yn ddigon o honynt eu hunain i beri i bob cynnrychiolwr ymddwyn gyda chyfiawnder ac anmhleidgarwch.

Yn mhellach, ag edrych i'r dyfodol, dyma un egwyddor arall fydd yn tueddu i brysuro a sicrhau sefydliad y cyfryw lys, a lleihau yr an-

hawsderau mewn cyssylltiad âg ef, sef addysg briodol y genhedlaeth sydd yn codi. Planer gelyniaeth at ryfel yn meddyliau yr ieuainc, fel y gallo dyfu gydâ'u tyfiant, ac y delo yn y diwedd yn rhan o'u natur. Rhaid i'r tir gael ei wrteithio yn dda, a'r hâd gael ei hau yn briodol. Dyna'r unig foddion yn nghyrhaedd dynolryw i sicrhau cynhauaf toreithiog a dymunol. Ac os llwyddwn i ochelyd a diddymu rhyfel, fel y gobeithiwn yn hyderus y gwnawn, os nid yn ddieithriad; etto, fel rheol gyffredin, bydd yn fuddugoliaeth ogoneddus. Ac yn mhellach, hyderwn mai nid breuddwyd dychymmygol sydd yn ein harwain i obeithio, os cymmer y prif genhedloedd y blaen yn y materion mwyaf eu pwys, yn gystal â'r rhai lleiaf, y bydd i'r cenhedloedd ereill ddylyn eu hol. Fel y byddo egwyddor cyflafareddiad yn cael ei ddadblygu, a'r meddwl dynol yn myned rhag ei flaen, a lles y bobl yn cael mwy o sylw nâ mympwyon brenhinoedd, bydd i lais cymdeithas, (pan yn gweithredu gyda holl nerth ei hangymmeradwyaeth ar y cenhedloedd hyny a barhânt i benderfynu eu cwerylon trwy y cleddyf,) ei gwneuthur yn anmhossibl i beidio gosod achosion pob annghydfod o flaen y llys cyflafareddol, ac felly ochelyd y perygl a'r angenrheidrwydd o dywallt gwaed; canys beth all fod yn fwy dychrynllyd nâ rhyfel? Nid yw yn fwy na llai nâ chigyddiaeth *wholesale*—cigyddiaeth brawd gan frawd; oblegyd beth yw yr hil ddynol ond un frawdoliaeth fawr wedi eu huno â'u gilydd, os nid gan rwymau uniongyrchol perthynas deuluol, o leiaf gan rwymau natur. Mae allorau rhyfel yn gochion gan waed offrymau dynol, a aberthwyd am droseddau yr oeddent hwy yn hollol ddiniwed o honynt. Gwneir plant yn amddifaid, rhwygir teuluoedd, gorchuddir trefi a phentrefi gan ddinystr, rhwystrir masnach, annhreithir tiriogaethau, a gadewir hwy yn anialwch diwrtaith; yna mae holl ddychrynfeydd prinder a newyn yn canlyn yn annocheladwy, os na ddaw ymwared oddiwrth gymhorth yr haelionus—y rhai hyn yw'r canlyniadau mae rhyfel bob amser yn dwyn ar ei ol.

Ai nid ein dyledswydd, gan hyny, yw gwneuthur pob ymdrech i'w ochelyd? Oni ddylem ymroddi i osod o flaen cenhedloedd y byd fanteision heddwch yn y fath oleuni fel nas gallant omedd uno â ni, i sicrhau llwyddiant cyflafareddiad, a thrwy hyny ddiddymu llywodraeth waedlyd duwies erchyll rhyfel.

O! am yr amser pryd y bydd heddwch ac ewyllys da yn teyrnasu yn fuddugoliaethus, pan na fydd son am ryfeloedd mwy ond yn nghofnodau yr oesoedd a fu, "pan y troir y cleddyfau yn sychau, a'r gwaewffyn yn bladuriau;" pryd hyny, ac nid cyn hyny, gallwn ddysgwyl i'r ddaear adlewyrchu gogoniant y nefoedd, preswylfa dragywyddol tangnefedd a dedwyddwch!

Ionawr, 1873. A. G. A.

Goleuo'r ffordd i gael y wir ffydd,—oll
'Nol y "'wyllys newydd,"*
A'i dwyn i fod; dyna fydd
Anian yr YMOFYNYDD.—DEWI DAWEL.

*New Testament.

TAITH I'R AIPHT A CHANAAN.

Y FFARWELIO.

"So the coast is won at last,
Who will count the billows past?"

Ffarwel! "Gorchwyl pur anhawdd," ebe awdwr diweddar, "yw ffarwelio. Dichon rhai chwerthin ei fod felly, ond gadawer iddynt. Nid oes mewn calonau o ia ddim sydd garedig. Gair ydyw ffarwel sydd yn fynych wedi bod yn rhwystr i leferydd, ac yn gymhellydd i ddagrau. Ymaflir yn y llaw, llefarir y gair, yr ydym yn ymwahanu, ac wele ni ar fôr mawr amser, yn myned i gyfarfod etto—yn mha le? Duw yn unig a wyr. Dichon heb fod yn hir, dichon *byth*—byth nes cyrhaedd y lan yr ochr draw, *where*—

"Adieus and farewells are a sound unknown."

Oni ddylem ofalu na byddo ein *good bye* yn un oer? Gall fod yr olaf a gawn roddi. Cyn y cawn gyfarfod a'n cyfaill etto, gall y bydd llaw oer yr angau wedi cau ei lygaid, a chadwyno ei wefusau am byth! A dichon iddo farw yn meddwl nad oeddem yn ei garu. Gall fod yn ymraniad hir. Ymwthia cyfeillion yn mlaen atom, a rhoddant law i ni. Pa fodd yr ydym yn cael allan yn mhob *good bye*, y cariad sydd yn trigo yno, a pha fodd y dygwn gyda ni yr adgof am y geiriau hyny am ddyddiau lawer? Rhaid i ni'n fynych ymwahanu. Na fydded i ni rwygo i ffwrdd gydag eofndra diofal fyddo yn herio pob cariad, ond gadawn i'r geiriau olaf yma megys ymlusgo allan bob yn un. Gadawer i'r galon lefaru allan yn gyflawn; ac os treigla'r dagrau, beth am hyny? Nid oes dim yn annymunol mewn dagrau." Gwell i arall fel yma *introducio* y pwnc. Ond nid oedd y llaw sydd yn awr yn gyru'r ysgrifell, heb fod yn teimlo yn ddwys ar adeg yr ymadawiad. Gyda theimlo fod rhwymau yr hen babell ddaearol yma—amryw o honynt—wedi llacâu; a gweled pryder yn ngwynebau cyfeillion, ac yn eu golwg am-mheuaeth a gaem weled ein gilydd byth mwy; teimlo fod yr ysgwyd llaw yn grynedig a digalon; a sylwi fod y tafodau yn fynych yn gwrthod llefaru, ac yn methu rhoi geiriad i deimlad y galon—nid oedd y pethau yma heb adael eu hargraff. Ond digon—yr oedd gobaith etto'n aros ar ol i mi, megys yr arosodd yn mlwch Pandora—gobaith cryf am ddychwelyd unwaith etto i blith yr hen gyfeillion; ie, ar ol teithio i bellder byd, a gweled ac edmygu rhyfeddodau'r Aipht a Chanaan, Itali, a Thwrci, a Groeg. Ar ol cael adgyfnerthiad i'r iechyd, y gobaith yn aros oedd, cael dychwelyd i'r hen aelwyd gartref, cael dychwelyd rhwng bryniau hen wlad fy nhadau, a chael treulio y gweddill o'm hoes mewn rhyw gylch o ddefnyddioldeb yn ngwasanaeth fy ngenedl a'm ceraint.

Yn y flwyddyn 1871, ac ar foreu dydd Iau, Chwefror 2, croesais drothwy y ty sydd mor anwyl i mi, a gadewais y dyffryn a'r ardal sydd yn llawn o adgofion mwyaf melus fy mywyd. Mewn myfyrdod a phendrymedd y brysiwyd yn y blaen heibio Castellnedd, Caerdydd, &c., ac y cyrhaeddasom Llundain. Nid oedd y trên yn gwneuthur fawr sylw, ac nid oedd y bobl oedd ynddo yn gwneuthur sylw 'chwaith, —yr oedd pob un ar ei neges ei hun, a phob un yn meindio ei fusnes ei hun; ychydig mae'r byd mawr gyda sŵn ei dwrw, yn ymostwng i sylwi ar neb un o honom yn neillduol. Megys y mae llong yn suddo yn y môr, heb adael yr un gofadail yn mhlith y tonau, felly yr ydym ninnau yn ymgolli yn môr mawr y byd, unwaith yr awn allan o gylch ein hadnabyddiaeth ein hunain. Ofer chwilio am dano yno,—

> "As well might you search out a vessel's path
> Amidst the gambols of the dancing waves."

Treuliwyd dydd Gwener yn prynu rhyw ychydig o bethau angenrheidiol i'r daith, a cheisio ymgydnabyddu a'r rhai oeddynt i ffurfio y cwmni yn ystod y tri mis dyfodol. Dydd Sadwrn, wedi brecwast (nid trwm iawn) am chwech y boreu, cydgychwynwyd o orsaf Ludgate Hill am ugain mynud i wyth, heibio i Chatham, lle y llosgodd De Ruyter ein llongau rhyfel yn 1667; heibio i Canterbury (*a*), lle y sefydlwyd yr archesgobaeth yn y seithfed ganrif gan Augustin—lle bu farw'r brenin Stephan yn 1154—lle y llofruddiwyd Becket yn 1171—lle y coronwyd y brenin John fwy nâg unwaith—lle y claddwyd y Tywysog Du a Henry IV.—lle y llosgwyd yr offeiriad W. Sautre am wrthod addoli'r groes a gwadu athrawiaeth y trawsylweddiad—lle y trodd Cromwell yr eglwys gadeiriol yn ystabal i'w geffylau—a lle y dygwyddodd llawer iawn o bethau pwysig ereill. Heibio i hwn, ac i Dover, yn agos i'r man lle y glaniodd Julius Cæsar 55 mlynedd cyn Crist—lle y glaniodd y Daniaid yn 1069—lle y cychwynodd Richard I. allan yn 1189 i ymuno a'r croesgadwyr—lle y carcharwyd y tywysog Edward, mab Henry III., &c.; ac oddiyno drachefn, wedi mordaith dawel o dair awr a hanner, cyrhaeddwyd Ostend. Yma yr oeddym yn "ddieithriaid a phererinion" mewn gwirionedd. Yr oedd pawb yn ddieithr i ni yma, ac yn llefaru yn ddieithr iawn yn wir. Rhyfedd mor anneallad wy y gall dynion fod i'w gilydd. Deallai'r bobl yma y naill y llall yn eithaf da, ond nid oeddwn i yn deall yr un gair o honynt. Rheswm gwan sydd dros ddywedyd nad oes iaith gan y gwyddau, oblegyd nad ydym ni yn eu deall. Yma yr ydym ar gyfandir Ewrop; ac heb fod yn faith, wele ni i ffwrdd etto gyda'r trên, heibio i Ghent, ac i ben ein taith y diwrnod hwn yn Brussels. Wel, y mae yn bryd i gael rhywbeth i'w fwyta bellach,—nid oes dim wedi ei gael ond dwy fisgien

---

(*a*) Oddiwrth y pererindodau at fedd Sant Thomas a Becket yn Canterbury, y daeth y gair *canter* a'r Gymraeg *cantro*, talfyriad o "Canterbury gallop,"—y dull o deithio oedd gan y pererinion wrth gychwyn ar hyd y llwybr wrth odreon y North Downs o Kent, yr hwn hyd heddyw sydd yn dwyn yr enw "Pilgrims' Road," neu Heol y Pererinion. Ac y mae'r gair *gallop*, o bossibl, yn dwyn cyssylltiad â Galoppe yn Flanders.—(Taylor.)

oddiar brecwast. Yr ydym yn yr Hotel de l'Univers yn awr, ac y mae siawns am rywbeth. Dacw'r *salle à manger*, a'r dorf yn ymgyrchu tuag ato. Ceffylau sy'n bwyta o'r *manger* gyda ni yn Nghymru, ond y mae i bob gwlad ei ffasiwn ei hunan, mae'n debyg, a *salle à manger* y gelwir *dining room* yn Brussels. Ni waeth beth fo'r enw, ond cael bwyd. Y mae yma luaws aruthrol, ac y mae'r byrddau wedi eu taenu yn barod, a'r *waiters* yn aros; *garcon*iaid y gelwir hwy yma, ond bod y *c* yn cael ei seinio fel *s*. Yn ol llythyr a ysgrifenwyd adref ar y pryd, gwelaf mai *soup* gawsom gyntaf (cawl ydyw hwnw, onite?), ac yr oedd yn dda odiaeth, oblegyd yr oedd eisiau bwyd tost. (2) Cafwyd pysgod. (3) *Mutton Pie*, neu bastai wedder. (4) Bocuf du Cheval; yr oedd yn cael ei fwriadu yn lle cig eidion, ond ni welais i erioed o'r blaen gig eidion o'i fath. (5) Rhywbeth *tebyg* i *sausages*. (6) *Game*, —math o adar bychain: adar y to, er dim a wn i. (7) Ham. (8) Dessert. (9) Os wyf yn cofio yn iawn, cwpanaid o goffi. Naw! Wel, nid oedd dim eisiau bwyd ar ol gorphen! Yr oedd y pryd hwn yn cael ei ystyried yn giniaw, ond yn cael ei alw yn *table d'hôte*. Buom wrtho o chwech ar gloch nes ydoedd hi rywbeth ar ol hanner awr wedi saith! Gair am Brussels yn y llythyr nesaf.

S.

"DARN UNDODAIDD SIR ABERTEIFI.

(O'r Cylchgrawn am Ragfyr, 1872, Tudal. 403.)

(Parhad o tudalen 15 *o'r rhifyn diweddaf.)*

"Yr hyn a wnawn bellach yw nodi rhai o'r pethau yr ydym wedi clywed dynion yn eu rhoddi o bryd i bryd yn erbyn Undodiaid yn y darn hwn. Ac wrth wneyd hyny, nid myned i daflu carreg atynt i'w cosbi y byddwn, ond dweyd yn onest yr hyn a dybia ereill allan o le ynddynt, a hyny er mwyn effeithio diwygiad. Yr wyf yn dweyd *yr hyn a dybia ereill*, nid am fy mod am glogyno fy hun yn y gair ereill, ond am fy mod yn gallu sicrhau fod llawer yn barnu yr un peth a minau. Nid wyf yn meddwl y digia yr un Undodiad wrthyf, am mai fi ar hyn o bryd sydd wedi bod mor onest a dyfod a'r pethau yn gyhoeddus fel hyn. Ac yr wyf yn gwybod y byddant hwythau yn sicr o wneyd yr un fath tuag ataf finau, ac ereill sydd gyda mi.

"Un peth a roddir yn erbyn yr Undodiaid yw, nad ydynt yn rhoddi golwg digon *cyffredinol, manwl, a phwysig ar bechod a rhinwedd*. Dywedir mai eu dull yn gyffredin o siarad am bechod a rhinwedd ydyw, yn eu perthynas fasnachol a chymmydogol; dweyd am annghyfiawnder mewn prynu a gwerthu; ac am ddigofaint, cenfigen, a thwyll rhwng cymmydogion; ac wrth reswm dywedant am y rhinweddau cyferbyniol; ond nad ydynt yn eu dangos yn ddigon eglur yn eu cyssylltiadau personol, teuluaidd, a chrefyddol. Dylent hwy a ninau gofio fod ffrwythau y cnawd a'r yspryd yn dra lluosog. "Amlwg yw gweithredoedd y cnawd, y rhai ydynt torpriodas, godineb, aflendid, aulladrwydd, delwaddoliaeth, swyngyfaredd, casineb, cynhenau, gwynfydau, llid, ymrysonau, ymbleidio, heresiau, cenfigenau, llofruddiaeth, meddwdod, cyfeddach, a chyffelyb i'r rhai hyn. Eithr ffrwyth yr Yspryd yw

cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest," Dyna rai o lawer sydd yn perthyn i bob ochr, ac y mae yr oll o honynt yn teilyngu ein sylw manylaf a phwysicaf. Mae y Beibl yn *fanwl* iawn gyda'r pethau hyn. Meddylier am bwnc y Sabboth, gyda gorchymmyn am i ni orphwys oddiwrth weithredoedd mwyaf pwysig y chwe' diwrnod; rhybuddia ni hefyd i beidio dwyn beichiau, i beidio gwneyd ein hewyllysiau ein hunain, na dywedyd ein geiriau ein hunain. Ac am yfed y diodydd meddwol, nid yn unig y mae yn gwahardd meddwdod, ond hefyd condemnia y gyfeddach ofer sydd rhwng dynion wrth gydyfed; a'r diotta, sef yr yfed glaseidiau afreidiol o le i le ac o bryd i bryd. Ac am bechodau y tafod, gwahardda nid yn unig dyngu anudon, cablu, rhegu, enllibio, dweyd anwiredd, a phob math o dwyll, ond hefyd *pob* gair segur. Ac felly am yr holl bechodau ereill perthynol i'r corff a'r meddwl. Yn awr, a ydyw yr Undodiaid o'r pwlpudau, ac mewn cynnadleddau eglwysig, yn codi eu llef mewn modd difrifol yn erbyn y cario beichiau ar y Sabboth, yn erbyn yr ymweliadau a chyfeillion a pherthynasau er mwyn dyfyrwch gwag a negesau bydol, ac yn erbyn yr holl wag-rodiana a'r segurdod, yn lle myned i addoli? Felly am yfed y diodydd meddwol, ac am anlladrwydd yr oes. Yr ydym wedi cael gan enwadau ereill lawer cynnadledd, cyfarfod eglwysig, a chyfarfodydd ereill ar gadwraeth y Sabboth, dirwest, cyfiawnder ymarferol mewn geirwiredd a gonestrwydd, cariad brawdol a chyffredinol, haelioni crefyddol a moesol, a phethau cyffelyb. Da genym weled ambell i erthygl yn yr *Ymofynydd* yn awr a phryd arall ar rai o'r pethau hyn; ond y bai a roddir yn erbyn yr Undodiaid yn gyffredin yw, nad ydynt yn cynnal cyfarfodydd pwrpasol, a gwneyd pob math o ymdrech arall er dynoethi pechodau yr oes, a phleidio y rhinweddau cyferbyniol. Nid ydym yn meddwl mai effaith fel yma ddylai fod i'r broffes o weithredoedd da fel sail cymmeradwyaeth gyda Duw.

"Rhoddir yn eu herbyn hefyd eu bod yn caniatau *rhyddid diangenrhaid mewn barn a buchedd.* Ymffrostiant eu bod yn enwad o rydd-ymofynwyr a rhydd-feddylwyr. Gallant fod felly, ond peth digon rhyfedd i bobl ereill yw gweled dynion sydd yn proffesu eu bod yn Undodiaid, a chynifer o wahanol farnau ar yr un peth wrth gynnal Cymmanfa, a chynnifer o wahanol farnau a bucheddau yn y rhai fyddo yn cymmuno wrth yr un bwrdd. Hyd y clywsom ni, caiff pob un a gynnygo fod yn bregethwr i'w henwad, beth bynag fyddo ei farn, a phob un dderbyn y cymmun, beth bynag fyddo ei fuchedd. Peth pur hynod mewn Cynnadledd Gymmanfaol, pan yn traethu ar bwnc pwysig Proffwydoliaeth Ysgrythyrol. oedd clywed un gweinidog yn dweyd nad oedd yr elfen o ragddywedyd pethau dyfodol yn perthyn iddi; un arall yn codi ar ei ol ac yn dweyd fod y proffwydi yn rhagddywedyd pethau dyfodol, ond mai pethau yn eu *hymyl* yn unig oeddynt; a'r trydydd yn dweyd eu bod yn gallu rhagddywedyd pethau pell yn gystal ag agos. Yr oedd pob un o'r rhai hyn yn proffesu bod yn ddysgawdwyr pobl o'r un enwad, a pha ryfedd fod yno rai yn gofyn wrth fyned allan pa un a ddylent gredu? Felly y maent hefyd gyda golwg ar bynciau pwysig Ysprydoliaeth, y gwyrthiau, dysgyblaeth eglwysig, sefyllfa ddyfodol, &c. Gallai eu bod yn meddwl wrth ganiatau cymmaint o ryddid barn a buchedd, y byddant mewn mwy o fantais i ennill dysgyblion; ond yr ydym yn credu eu bod yn camsynied. Mae dynion yn gyffredin eisieu cael cryn lawer o unoliaeth barn rhwng dysgawdwyr crefyddol o'r un enwad; ac os na chânt hyny gan un enwad, byddant yn debyg o fyned lle y caffont, neu fyned yn hollol ddifater, os nid yn anffyddwyr, fel y mae rhai yn credu fod llawer o'r Undodiaid, yn y dyddiau hyn, i raddau pell. Yr ydym oll yn credu fod rhyddid yn beth da yn ei le; ond nid ydym yn credu mewn rhyddid i bawb, yn mhob peth, ac i'r graddau a fynont; ac ar yr un pryd

rhoddi mwynhad iddynt i'r un rhagorfreintiau â'r rhai sydd yn byw o fewn terfynau rhesymol Beibl a moes.

Beïr hwynt hefyd o roddi *barn hannerog ar, a thynu casgliadau annheg oddiwrth, ddaliadau crefyddol eu cyd-enwadau.* Nid anfynych, a hyny yn gyhoeddus, y clywir hwy yn dweyd am y Trindodwyr, eu bod yn dweyd fod tri Duw. Clywir hwy yn dweyd hefyd am danom, ein bod yn meddwl myned i'r nefoedd trwy haeddiant un arall yn unig, ond mai eu barn hwy ydyw mai trwy haeddiant eu gweithredoedd da eu hunain yr â pawb yno, gan awgrymu nad yw y Trindodwyr yn dal yr un angenrheidrwydd am weithredoedd da. Os nad yw pethau fel hyn yn dwyn camdystiolaeth yn erbyn cymmydog, beth sydd felly? Os dywedant mai dyna yr esboniad allant roddi ar ein barn, yr ydym yn gwadu hyny, gan y gwyddant beth yw ein hesboniad ni ar y pethau, ac ar yr un pryd ein bod yn credu undod Duw, a'r angenrheidrwydd am weithredoedd da yn gystal a hwythau. Dyfyna rhai o honynt hefyd y geiriau "damnio," "llyn yn llosgi o dân a brwmstan," a'r cyffelyb, er mwyn diraddio ein barn am gosbedigaeth yr annuwiol; o'r hyn lleiaf, yn destyn gwawd y darfu i ni eu clywed yn cael eu defnyddio, a hyny fwy nag unwaith. Dywedant hefyd ein bod yn gwneyd ein Tad nefol yn un creulawn trwy farnu fel yr ydym am gosbedigaethau dynion ganddo am eu pechodau. Nid oes genym ddim i'w ddweyd ar hyn, ond bod y ffeithiau a'r ymadroddion ar lawr yn y Beibl, ac y rhaid iddynt hwy roddi rhyw esboniad arnynt yn gystal â ninau, neu eu taflu allan. A gallem ni feddwl am bob tad naturiol, ac am bob llywodraethwr gwladol, eu bod yn dangos mwy o greulondeb trwy *beidio* cosbi plant a deiliaid am ddrwg, na phe byddent yn gwneyd.

"Ond hwyrach mai mewn defosiynau crefyddol, neu ddyledswyddau addolgar, y mae yr Undodiaid yn fwyaf diffygiol. Mae y pethau ydym wedi enwi o'r blaen yn bethau rhwng dyn a'i gymmydog gan mwyaf; ond am y rhai hyn, pethau rhwng dyn a'i Dduw ydynt. Yr ydym wedi nodi y Sabboth, ond yr hyn a wnaethom oedd ei ddangos yn y cyssylltiad sydd rhwng dyn a'i gyd-ddyn, ond beth am ddyledswyddau dyn at ei Greawdwr ar y diwrnod? Y maent hwy fel enwad erbyn hyn wedi codi Ysgolion Sabbothol yn bur gyffredin, er eu bod wedi dweyd llawer yn eu herbyn. Maent hefyd yn gwneyd ymdrechion canmoladwy gyda'r canu mewn rhai lleoedd. Yr oeddynt yn gweled eu bod yn colli yr oes yn gyflym o'r capelau os na wnaent fabwysiadu rhyw gynlluniau er eu tynu yn ol; ac yn ein bryd ni, y maent wedi gwneyd yr hyn a ddylasent. Dywedir wedi y cwbl mai gweigion iawn yw eu capelau, yn enwedig ar brydnawn Sabboth; ac ni ellir beio llawer arnynt am hyny chwaith, gan mai pur anfynych, hyd yn ddiweddar, y byddent yn gweled agor capel ond i un odfa yn yr wythnos, a hyny ar y Sabboth. Ond yr hyn y mae y diffyg mwyaf, hyd y gallwn ddeall, ydyw *gweddio.* Yr ydym yn deall oddiwrth yr *Ymofynydd,* ac oddiwrth eu pregethau, eu bod yn dal yr angenrheidrwydd o weddio; ond paham na chynnalient gyfarfodydd pwrpasol at hyny? A phaham na byddent yn cadw addoliad cyhoeddus yn eu teuluoedd? Dywedir wrthym fod cynnulleidfaoedd cyfain o honynt, heb fawr neb ynddynt yn arfer hyn yn eu teuluoedd gartref, a pha ryfedd gan hyny eu bod heb gynnal cyfarfodydd gweddiau? Os gofyn rhyw ddarllenydd beth yw yr achos o hyn, nid oes genym ond ateb na wyddom, os nad rhyw ddiffyg ydyw yn natur eu crefydd a'u dull o'i dysgu. Yr ydym yn cael lle i feddwl mai hyny ydyw, gan mai yn raddol y maent wedi myned fel yma. Yr oedd llawer yn eu mysg yn cadw addoliad teuluaidd pan ddarfu iddynt dori allan gyntaf oddiwrth yr Arminiaid, ond aethant yn deneuach o hyd o hyny hyd yn awr. Mae yn fwy o arwydd o ddrwg *yn* nghyfansoddiad y pren ei fod yn gwywo yn raddol nâ phe

byddai yn gwneyd hyny yn ddisymwth. Hysbysir ni fod D. Jenkin Rhys mor fanwl gyda'r addoliad teuluaidd, fel os daethai adref yn hwyr weithiau, y byddai rhaid iddo gael holl ddynion ei dŷ wed'yn yn nghyd i'r addoliad, er i rai o honynt fod yn eu gwelyau. Nid ydym yn gwybod am briodoldeb dull caeth fel yna, ond gallai fod yn iachach i'w cyfansoddiad nâ'r esgeulusdra rhydd presenol. Yr ydym yn gwybod fod gormod o esgeuluso moddion crefyddol yn mysg pob enwad yn y sir, ond yr ydym yn credu fod mwy o hyny yn y darn Undodaidd nag yn un lle arall.

"Gallai fod llawer o'r difaterwch crefyddol hwn wedi ei achosi trwy *oerfelgarwch* yr enwad. Dywedir nad oes fawr o ymofyn am deimlad yn eu cyflawniadau, a'r achos o hyny etto, medd rhai, yw eu bod wedi dweyd cymmaint yn erbyn yr arddangosiadau o deimlad gan enwadau ereill, fel y darfu iddynt ei golli bron yn holl-ol eu hunain. Nid oes fawr oddiar pan cedd gweinidog mewn cynnadledd, wrth sylwi ar y pwnc o Ddiwygiad Crefyddol, yn neidio â'i holl egni yn yr allor, gan daflu ei freichiau, a cheisio gwaeddu hymnau, a'r oll er mwyn dynwared pobl y diwygiad, nes cynnyrchu crechwen am amser maith yn yr holl dorf. Yr oedd hwnw ar y pryd gyda'r gweinidog hynaf a mwyaf parchus yn y Cyfundeb, ac yr oedd ei ddylanwad o'r herwydd yn cyrhaedd yn mhell er gwneyd i'r dynion gashau pob arddangosiadau felly o deimlad. Achos arall o'r diffyg teimlad yw y dadleu sychlyd sydd wedi bod yn y darn hwn am faith flynyddoedd. Y mae *coolness* a hunanfeddiant yn bethau da at ddadleu, ac wrth hir arfer yn dyfod yn eiddo i'r dyn. Yr ydym yn credu nad oes dim yn fwy dymunol nâ dadl iachus ar brif bynciau y dydd yn awr a phryd arall; ond y mae cadw dynion o'r un enwad mewn dadleuon diddiwedd ar brif bynciau crefydd i'n tyb ni yn beth annymunol iawn. Ond felly y bydd tra byddo eu dysgawdwyr mor wahanol eu barnau am danynt. Gan i Mr. Thomas, Pantydefaid, i ofyn am *brescription* genym, rhoddwn un iddo at wella y dwymyn gryd sydd wedi cadw y darn mewn ystad mor sigledig er cynnifer o flynyddoedd. A chan iddo ein cynghori i beidio rhoddi y *prescription* o'r Beibl, gwnawn hyny, er y credwn ar yr un pryd nad ydyw yn wrth-feiblaidd, a dyma fe:— Cymhwyser digon o wres at gyfansoddiad claf trwy gyflawnder o foddion crefyddol, a rhodder digon o yni bywydol ynddynt er effeithio ymrwbiad nerthol; yna rhodder digon o fwyd iachus, unrhywiol, a chysson o brif bynciau crefydd o'i flaen, a rhodder digon o ymarferiad iddo yn y cyfarfodydd, ac yn holl gylch bywyd, er peru cylchrediad gwaed rheolaidd, a chydbwysedd teimlad. Yna cynghorer ef i fynu digon o awyr iachus cwmni o gymmeriad da ac arferion gweddus. Tra byddo gan yr Undodiaid ddynoliaeth, dylent wneyd yn fawr o deimlad. Mae gan ddyn deimlad, ac y mae yn rhaid i bob dyn gael ei ddangos yn ol y graddau sydd ganddo o hono, a'i ddull personol o'i amlygu. A rhywfordd, y mae yn rhaid myned at deimlad pob dyn cyn y gwneir fawr o hono. Ni wneir llawer â haiarn tra yn oer, ond cymhwyser digon o wres ato gellir gwneyd a fyner âg ef. Mae yn rhaid yn gyffredin i'r physigwriaeth a roddir i'r claf, i gyfranogi yn helaeth o wres y corff cyn y gall effeithio lles. Ar ryw olwg, y peth mwyaf *delicate* o ddim i lefaru yn ei erbyn yw teimlad, gan mai yr arddangosiad o hono yw y prawf sicraf o fywyd. Mae yn rhaid i ni addef yr un pryd mai peth twyllodrus yw teimlad, gan ei fod mor barod i dderbyn argraff; ac oblegyd hyn dylai pob dyn ymgynghori llawer â barn cydwybod, yn wyneb ffeithiau a Beibl. O'r ochr arall, ni ddylid esgeuluso teimlad mewn un modd, gan ei fod yn meddu cymmaint o ddylanwad ar ddyn; ac wrth wneyd hyn, yn un peth, i'n tyb ni, y mae yr Undodiaid wedi myned yn enwad mor oer.

"Dyna ni bellach wedi rhoddi awgrym am y ddau fath o ddyledswyddau gorphwysedig ar ddynion, sef y rhai tuag at eu gilydd a'r rhai tuag at Dduw, ac y

maent yr un fath a phe byddem yn eu galw yn ddyledswyddau tuag at y corff a rhai tuag at yr enaid—yn rhai tuag at y nefoedd a thuag at y ddaear. Gelwir y naill yn foesoldeb gwleidyddol, a'r llall yn foesoldeb crefyddol, neu wleidyddiaeth a duwioldeb. Fel yna y gelwir hwynt mewn llenyddiaeth, ond yr enwau a rydd y Beibl arnynt yw, daearol a nefol, anianol ac ysprydol, &c. Yn awr y mae yr Undodiaid a ninau i dalu sylw i bob un o'r ddau yn ol eu pwys a'u canlyniadau. A dengys y Beibl nad ydym i wahanu y rhai hyn, ond bob amser eu cadw gyda'u gilydd yn mywyd y dyn, fel y byddo y naill yn profi bodolaeth y llall, ac y byddont hefyd yn feithriniaeth i'w gilydd. Ein barn ni am yr Undodiaid yw, eu bod yn edrych ar dduwioldeb yn yr ystyr wleidyddol o hono, yn y dyledswyddau tuag at ein cymmydogion, gan annghofio gormod, yn ymarferol beth bynag, o'n dyledswyddau tuag atom ein hunain yn bersonol yn ein cyssylltiad uniongyrchol â Duw. Yr ydym yn sier ein bod yn annog ein gilydd i gadw y gorchymmynion yn llawn cymmaint a hwythau, ond peth anhawdd iawn yw cael dynion i gyflawnu yr holl orchymmynion tuag at eu gilydd, a thuag atynt eu hunain, heb eu cael yn gyntaf i gyflawnu eu dyledswyddau uniongyrchol tuag at Dduw. Mae yn wir y ceir llawer o ddynion heb un *broffes* o grefydd o ymddygiad gwleidyddol cywir tuag at eu cyd-ddynion; ond fel y dywedasom o'r blaen, nid yw y ddau fath o ddyledswyddau i'w gwahanu; a'r cwestiwn yw, a ydyw y dynion hyny yn cyflawnu eu dyledswyddau *crefyddol* tuag at eu gilydd? Nis gall un offeryn roddi allan felodedd hyfryd, os bydd rhai o'i danau allan o drefn; felly darnau o gymmeriad fydd gan bob dyn, os bydd yn talu sylw i rai dyledswyddau gan esgeuluso y lleill. Y mae greddf, rheswm, a chydwybod yn dysgu dyledswyddau gwleidyddol yn bur dda i bob dyn yn ol y cyfansoddiad gwladol y bydd yn perthyn iddo, ac ymafla y gyfraith ynddo os trosedda. Y mae cyssylltiad rhwng dyn hefyd a llywodraeth arall, ac y mae hono yn gofyn ei holl enaid, ei gorff, ei amser, a'i gyfoeth,—h.y., y mae trwy yr oll i geisio teyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef yn gyntaf ac yn bytrach, a phob peth arall i fod yn israddol; ond hyd yr ydym yn deall, ychydig o'u hamser a dreulia yr Undodiaid at addoli, ac ychydig o'u cyfoeth a roddant i wasanaethu crefydd. Y maent yn gywilyddus o gybyddlyd tuag at eu gweinidogion, ac ychydig a roddant at ddim crefyddol.

Ond y mae daioni yn perthyn iddynt hefyd, ac yr ydym yn credu fod rhai pethau yn perthyn iddynt dd lai fod yn esiampl i ereill i'w hefelychu. Y maent trwy eu gweinidogion wedi bod yn hynod o ofalus am addysg wladol yr oes. Efallai mai y rheswm sydd ganddynt dros beidio rhoddi mwy i'w gweinidogion yw eu bod yn ystyried mai addysgu trwy gadw ysgolion yw eu gwaith mwyaf. Beth bynag, y mae pob enwad yn ddyledus iddynt am hyn, ac am fod yn hollol ansectarol yn eu haddysg. Pwy o fewn cwmpas ugain milldir nad yw yn gwybod am ysgol enwog Pont Siân, dan ofal y Parch. Thomas Thomas? Ac felly am un y Parch. William Thomas, M.A., (Gwilym Marles), yn Llandyssul, sydd ychydig yn fwy diweddar. A dymunwn ofyn, beth fyddai sefyllfa addysg yn mhlwyf eang Ystrad yn y blynyddoedd diweddaf, oni bai am ysgol y Parch. William Rees, yn Felinfach? Yr ydym yn mawr hoffi hefyd ddull syml a phlaen yr Undodiaid yn y darn hwn. Golwg ddiserch sydd arnynt ar y dechreu, ond y maent yn dyfod yn well wrth gyfarwyddo â hwynt. Ac os ydyw y byd am weled Cymru yn ei gwedd Gymreig o ran ei gwisgoedd, y darn hwn am hyny, ac y mae hyn yn myned yn mhell i brofi nad ydynt yn rhedeg gyda'r oes i'r "unrhyw ormod rhysedd" mewn balchder. Ond rhaid gadael ar hyn.

J. E."

SYLWADAU AR YR ERTHYGL FLAENOROL.

Os ydyw awdwr yr erthygl hwn yn dyweyd y gwir—os oes sylfaen ganddo i'w awgrymiadau cyhuddiadol—nis gallwn lai nâ sylwi fod yn anhawdd cwrdd a gwaelach dynion yn mhob ystyr, nâg Undodiaid Sir Aberteifi. Os y credwn J. E., maent mor anfucheddol âg y gall dynion mewn gwlad Grist'nogol braidd fod—yn dorwyr Sabboth, yn yfwyr diodydd meddwol. ac yn cyflawnu anlladrwydd yr oes. Maent, hefyd, fel crefyddwyr, yn oer, yn ddifater ynghylch crefydd, yn ddideimlad yn eu cyfarfodydd, yn gybyddlyd, yn esgeuluso gweddi deuluaidd, yn gwneuthur yn fach o bechod, yn camddarlunio crefydd eu cyd-enwadau; yn fyr, y maent yn bob peth sydd isel a gwael. Gofynwn pwy yw J. E,, ac a ydyw yr awgrymiadau yn ei erthygl yn deilliaw o'i wybodaeth bersonol ei hun, neu ynte ymddibynu mae ar dystiolaeth craill? Dichon mai Undodwr yw ag sydd, oherwydd rhyw drosedd neu gilydd, wedi digio wrth ei frodyr; ac yn awr, er mwyn ymddial, yn defnyddio y *Cylchgrawn* i'w henllibo. Dichon, ynte, mai gweinidog yw yn rhyw enwad gwrthwynebol yn ceisio yn awr, pan mae moddion ereill wedi methu, diddymu Undodiaeth yn Sir Aberteifi, trwy ddrwgliwio cymeriadau ei phleidwyr. Yn lle ergydio yn y tywyllwch, meddyliem yn well am dano pe y delai allan fel dyn, yn ei enw priodol.

Nid ein lle ni yw cynyg gwrthbrofi yr awgrymiadau yn yr erthygl hwn, tra mae eraill yn mysg ein brodyr ag sydd lawer addasach i wneyd hyny, er ein bod yn credu—yn wir, yn gwybod—nad ydynt wir. Yr ydym yn credu, hefyd, y tybia pawb sydd yn adnabod Undodiaid Sir Aberteifi, fod eu cymeriad moesol lawn cystal, beth bynag, ag eiddo eu cymydogion Trindodaidd. Gyda golwg ar ddau neu dri o bethau ag sydd yn dal mwy o berthynas âg Undodiaeth ei hun nac â chymeriad ei phroffeswyr, ni fyddai, efallai, maes o le i ni gynyg ychydig sylwadau. Un peth ydyw fod yr Undodiaid "yn caniatau rhyddid diangenrhaid mewn barn a buchedd." Meddwl ydym mai at eu gweinidogion, yn fwyaf neillduol, y cyfeirir. Am y fuchedd, nid oes genym ddim i ddyweyd; ond am y farn, mae y cyhuddiad hwn yn wir. Rhyw frawddeg ryfedd i ni yw *ryddid diangenrhaid*. Ni debygem mai angenrhaid yw pob rhyddid i chwilio yr Ysgrythyrau, ac i ymofyn yn mhob dull a modd am y gwirionedd. Yn ein plith ni yr Undodiaid, mae cyflawn ryddid i bob dyn i wneyd hyn, ac i ddyweyd ei feddwl ar bob pwnc ar amserau priodol, bydded ei farn mor hereticaidd bynag y bo. "Profwch bob peth, a deliwch yr hyn sydd dda," yw arwydd-air yr Undodiaid. Tybiant y dylent fod yn Brotestaniaid, nid yn unig mewn enw, ond hefyd mewn arferiad. Egwyddor sylfaenol Protestaniaeth, yw fod hawl gan bob dyn i chwilio yr Ysgrythyrau, a barnu drosto ei hun. Yr Undodiaid yw'r unig enwad Protestanaidd ag sydd yn cario allan yr egwyddor hon yn ei chyflawnder. Nid ydym yn dyweyd hyn mewn ymffrost, ond y mae yn ffaith.

Yr ydym yn addef fod yr enwadau Trindodol yn proffesu yr egwyddor, ond ni chaniatant i neb yn eu heglwysi i'w gosod mewn gweithrediad yn mhellach na fyddo yn gysson a'u credöau. "Darllenwch eich Beibl," meddant mewn proffes, ond mewn arferiad dywedant, "Ymswynwch ar eich perygl na thynoch gasgliadau oddiwrtho yn groes i'n syniadau ni fel enwad, onite bydd yn well i chwi ymadael." Mae gwahanol farnau yn ein plith, yr ydym yn addef, a thraddodwn yn fynych yn ein cynadleddau bynciau ag y mae gwahanol opiniynau yn ein plith yn eu cylch, ond beth wedi'n? Yr ydym yn cytuno i anghytuno—gwers nad ydyw'r Trindodiaid eto wedi ddysgu yn mhellach nac i adael yn llonydd aelod hereticaidd yn eu plith os y bydd yn ddistaw. Ar y telerau hyn, dioddefir yn llawer man i Undodwr fod yn aelod o eglwys Drindodaidd. Onid oes gwahanol farnau yn mhlith y Trindodiaid eu hunain, ac hyd yn nod ar bynciau a ystyriant yn hanffodol i iechydwriaeth? A ydynt oll o'r un farn ynghylch y modd y bodola y Duwdod? A ydynt oll yn credu yr un ffordd am y Drindod? Gwyddys nad ydynt, ond fod cymmaint o wahanol farnau yn ei chylch, o bosibl, ag sydd o wahanol wynebau yn y gynulleidfa. Beth hefyd am athrawiaeth yr Iawn—athrawiaeth a ystyrir mor hanffodol i iechydwriaeth? A ydynt oll yn cytuno yn ei chylch? Atebed y gwahanol gyfundraethau. Sylwyd yn ddiweddar yn y *Birmingham School Board* fod dim llai na phump ar hugain o honynt, a gofynwyd p'un o honynt a ddysgai yr ysgolfeistri i'r plant. Dichon nad oes cymmaint a hyny, ond y mae amryw ar a wyddom ni am danynt. Gyda golwg ar wahaniaeth barn, ymddengys i ni mai yr unig wahaniaeth rhwng Undodiaid a Thrindodiaid yw, fod un yn caniatau cyflawn ryddid i ddadleu, a chwilio, a phroffesu, fel y byddont yn credu, a'r llall yn glynu yn gyhoeddus wrth gredo yr eglwys, gan nad faint fyddont yn y dirgel yn gwahaniaethu mewn barn oddiwrthi. Yn uhyb yr Undodiaid, mae y gwirionedd yn beth mwy pwysig na sefydlu a meithrin sect. Er hyny, er cymmaint y rhyddid barn a ganiatant, mentrwn ddyweyd fod mwy o undeb meddyliol yn eu plith o berthynas i brif egwyddorion crefydd nag y sydd yn mhlith y Trindodiaid. Wrth brif egwyddorion crefydd y deallwn, bodolaeth a thadoldeb Duw, cyfrifoldeb ac anfarwoldeb dyn, drwg pechod, gwobrwy rhinwedd, dydd barn, a bywyd i ddod, ynghylch y rhai nid oes fawr o wahanol farnau yn mhlith yr Undodiaid. Dyma un o effeithiau daionus rhyddid barn, ac os oes rhai ffyliaid yn myned ymaith o'n cyrddau gan ddyweyd, "Beth sydd i ni gredu?" elai llawer mwy allan gan ofyn yr un fath gwestiwn, pe fyddai gan y Trindodiaid gymmaint o ffydd yn y gwirionedd ag a fedda pawb a berthynant i'r enwad Undodaidd. Nid oes terfynau i ryddid barn yn ein plith.

Mae yma amryw bethau yn cael eu traethu am yr Undodiaid ag ydym wedi glywed ddwseni o weithiau o'r blaen, megys eu bod yn oer a difater gyda chrefydd, ac yn ddideimlad yn eu haddoliad, am nad ydynt o bosibl yn neidio, yn gwneuthur swn mawr, a phob math o ystumiau anweddaidd, fel y mae yn arfer weithiau yn Nghymru. Mae haeriadau o'r fath hyn yn hollol ddisail, ac ofer fyddai treulio amser

i'w hamheu. Ond pa fodd bynag, mae yma un cyhuddiad sydd yn newydd i ni, ac yr ydym wedi synu ei weled. Dywed yr awdwr ein bod yn "rhoddi barn hanerog ar, ac yn tynu casgliadau annheg oddiwrth, ddaliadau crefyddol ein cyd-enwadau." Gallasem feddwl mai yr Undodiaid fuasai y diweddaf i gael eu cyhuddo o hyn. Yr ydym yn sicr nad yw yr awdwr yn gyfarwydd iawn a chyfansoddiadau awduron Undodaidd, onite nid ydym yn meddwl y dygasai y cyhuddiad hwn yn ein herbyn. Os caniateir i ni grybwyll peth bach, pe fuasem yn hanerog ac annheg, a ydyw yn debyg y buasai erthyglau J. E. yn cael eu cyhoeddi yn yr YMOFYNYDD? A wnelai y Trindodiaid gymmaint o degwch tuag at erthyglau Undodwr yn erbyn Trindodiaeth? Mae yn anhawdd genym gredu. Fel prawf o annhegwch yr Undodiaid, dywed yr awdwr eu bod yn cyhuddo y Trindodiaid o addoli tri Duw, ac yn disgwyl y cant fyned i'r nefoedd ar haeddiant un arall. Mae yn wir fod yr Undodiaid yn dyweyd hyn, nid am eu bod yn annheg, ond am mai dyma yr unig gasgliad allant dynu oddiwrth athrawiaeth y Drindod a'r Iawn. Nid oes y fath beth a *logic* yn y byd os nad yw y casgliad hwn yn gywir, a beiddiwn J. E. i ddangos yn wahanol, os y myn, ar faes yr YMOFYNYDD, tudalenau yr hwn, gallwn addaw, fyddant at ei wasanaeth. Yn ol pob cyfundraeth o'r Drindod, rhaid fod pob un o'r personau yn berffaith Dduw, neu ynte nid oes dim meddwl i eiriau. Ac am athrawiaeth yr Iawn, gwir yw fod ei chofleidwyr yn dysgu y cant fyned i'r nefoedd trwy haeddiant Crist yn unig. Os na all J. E. ddwyn rhyw brawf arall i ddangos fod yr Undodiaid yn hanerog ac annheg, rhaid i'w gyhuddiad gwympo i'r llawr. Gallem ddwyn digonedd o brofion o'r tu arall i ddangos nad oes neb yn llai hanerog, nac yn decach tuag at eu gwrthwynebwyr, nac yw yr Undodiaid. Arfer eu hawduron yn wastad, hyd byth ag fyddo yn bosibl, yw gadael i'w gwrthwynebwyr draethu eu barn yn eu geiriau eu hunain, yn gymmwys fel yr ydym ni yn gwneuthur a J. E. yn yr YMOFYNYDD, sef gadael iddo ef ei hunan i ddyweyd eu stori. Beth all fod yn decach?

Yn olaf, pe fyddai o werth sylwi, ni debygem mai y diweddar Mr. James, o Gellionen, oedd "y gweinidog mewn cynadledd yn neidio a'i holl egni yn yr allor, gan daflu ei freichiau," &c. Dichon fod tipyn o baentio yma er mwyn effaith. Druan a Mr. James! Nid oedd ei egni ef i neidio ddim llawer y pryd hwn. Ni ryfeddem ni ddim na wnai ef weithiau, yn ei eiddigedd dros grefydd Crist, ddynoethi mewn modd grymus ac effeithiol y ffwlbri gwarthus a gyflawnir mewn "Diwygiadau Crefydd lol" yn Nghymru, oblegid peth prysur yn ngolwg Mr. James oedd crefydd. Nis gwelsom ef erioed yn annerch ei wrandawyr heb ollwng dagrau, ac nid llawer o wyneban sychion a welid yn y lle, er y cyhuddia yr ysgrifenwr hwn yr Undodiaid o ddideimladrwydd. Sicr ydym nad yw ef yn gwybod fawr am dmynt, a'i fod wedi cymeryd arno i warthrudio dynion lawn cystal ag yntau, bydded ef cystal ag y bo. Os wrth deimlad y tybia swn mawr mewn cyfarfod, a bloeddio "amenau," mae yn wir nad oes yno fawr deimlad. Llestri gwag sydd fynychaf yn gwneyd fwyaf o swn. O herwydd nad

oes yno swn, nid yw yn canlyn nad oes yno deimlad, a theimlad dwys.

Edrychwn ar y ganmoliaeth ar ddiwedd yr erthygl fel canmol ei wedi rhoddi cic iddo. Os yw y ddau athraw a enwir yn cael eu boddio gan y *compliment*, yr ydym ni yn eithaf boddlon.

Caerfyrddin. PYRRHO.

UNION IN DIVERSITY.

THE variety of opinion on religious subjects that finds home and expression in the Unitarian Church is one of its distinguished characteristics. The right to think, and the liberty to teach, are conceded to every member. Tenaciously and jealously are these privileges upheld and guarded. Any attempt to enforce a creed, test, or shibboleth, rouses all the energy of freemen to resist the yoke of slavery. Unlimited liberty is not, however, without disadvantages. There is danger of abuse, a tendency to licentiousness of liberty; indifference to denominational success, and to the spread of the purest forms of truth, weakness is the result, and the energy which is necessary to growth and church life is lost. It is this diversity which causes the Unitarian Church to be described as a cold and cheerless region—the North Pole of religion,—while the Unitarian Theology is really vital with the elements of love, truth, good will to men, and unfailing trust in the heavenly God-Father. The one thing needful is *union in this diversity*. Union in diversity is the order of nature. The granite rock is but a combination of diverse atoms. Combination is power. The Unitarian Church needs it. Union is essential to growth, and to the spread of those views which Unitarians hold in common. Instead of the "sect everywhere spoken against" being a compact and united body, it is simply a number of detached congregations, having no bond of union to give force and solidity to their labours. One great disadvantage arises from many of our chapels being widely apart from each other. Yet, in some districts, there are clusters of chapels. The members of these may unite for various practical purposes. Suppose that, where two or three chapels are within easy distance, united efforts were to be made to improve the congregational singing. Good singing is always attractive; other churches know this, and profit by the knowledge. If nothing more should be gained than the Sunday services being made more attractive and pleasing, surely such an improvement is worth seeking and having. The Sunday Schools may be benefited in a similar way. The formation of Unions among teachers of neighbouring Unitarian schools could not fail to have a good effect. Occasional meetings to confer upon the best methods of carrying on the good work in which all are engaged, to hear and to

give suggestions, the result of experience, would, without doubt, contribute to make the schools more successful, give a charm to the work, and relieve it of all tediousness.—*Notes from a Common Place Book.*

NODIADAU GWLEIDYDDOL.

Yn Ffrainc y mae pethau yn parhau yn bur ansefydlog; etto, ymddengys fel pe byddai y teimlad gwerinol yn ymgadarnhau. Y mae M. Thiers yn hwylio ei long yn hynod lwyddianus rhwng y gwahanol wrthbleidiau. Mae'r wlad yn gwneuthur yn dda tuag at dalu'r arian i Prwssia, a dysgwylia gael ei bauer yn chwyfio unwaith etto dros ei holl diriogaeth yn mis Medi nesaf.

Yn Yspaen nid oes fawr gwelliant wedi cymmeryd lle.

Gartref.—Y mae'r *strike* fawr wedi terfynu o'r diwedd. Hir y byddom cyn cael clywed am un arall. Achosodd lawer o ddyoddefaint ac annymunoldeb, heb wneuthur un lles, ar a wyddom ni, i neb. Y mae argoelion masnach yn bur ffafriol, a gobeithiwn y gwneir pob cais i wellhau'r archollion a gafwyd yn yr ymdrech. Dysgwyliwn erthygl yn fuan ar "*Strikes*, gydag awgrymiadau i'w gochelyd."——Peth pwysig arall sydd wedi cymmeryd lle yn ddiweddar yw, gorchfygiad ac ymddiswyddiad Mr. Gladstone. Gorchfygwyd ef gan fwyafrif o dri yn unig, ar bwnc addysg golegol yn yr Iwerddon. Mae Gladstone, fodd bynag, yn gadben lled dda; ac er i'r llong ymdaro ar draws y graig arno, y mae wedi llwyddo i'w chael i nofio etto yn bur ddianaf. Wrth gwrs, wedi iddo gael ei orchfygu, ymddiswyddodd yn union, gan roddi cyfleusdra i Mr. Disraeli i ffurfio gweinyddiaeth Doriaidd, os gallai. Trodd cais Mr. D. allan yn ofer, ac y mae llong y deyrnas unwaith etto dan lywyddiaeth Mr. Gladstone. Yn bresenol, nid oes dim arwyddion y cymmer etholiad le yn fuan; ond pryd bynag y daw, bydd yr etholwyr o dan amddiffyniad y Tugel (*Ballot*).

Mawrth 21, 1873. Gwyliedydd.

Dyben Bywyd.—Cofiwch i ba ddyben y'ch ganwyd, a thrwy holl ystod eich bywyd, edrychwch at ei ddiwedd. Ystyriwch yn mha beth yr ymddiriedwch pan ddelo hwnw. Nid yn *bubble* gwagedd, fe dyr hwnw; nid mewn pleserau bydol, hwy a ddiflanant; nid mewn cyssylltiadau mawrion, nis gallant hwy eich gwasanaethu; nid mewn cyfoeth, nis gallwch gario hwnw gyda chwi; nid mewn sefyllfa uchel (*rank*), nid oes yn y bedd ddim gwahaniaeth rhwng brenin a chardotyn; nid mewn adgof o fywyd wedi ei dreulio mewn cydymffurfiad dwl â ffasiynau ffol byd anystyriol a phechadurus; nage, ond mewn bywyd wedi ei dreulio yn sobr, yn gyfiawn, yn dduwiol, ac yn ddoeth, yn y byd presenol hwn.

Priodasau.

Tachwedd 13eg, 1872, yn nghapel Caeronen, gan y Parch. R. C. Jones, Mr. Thomas Hughes, Pentrefelin Cottage, â Miss Eleanor Davies, Penllain. Y ddau o blwyf Cellan, Ceredigion.

"Priodas addas iddynt,—hael wenau
Rhagluniaeth fo drostynt;
Er hwyliaw mewn gwir helynt,
Bywyd o hedd, hoywedd hynt."

Ion. 10, 1873, yn Caeronen, Cellan, y Parch. Rhys C. Jones, gweinidog y lle, â Miss Mary Jones, Wern Cottage, Cellan, yn mhresenoldeb David Daniel, Caeglas, Cofrestrydd, ac yn ngwydd tystion safadwy a diwrthbrawf. Boed hawddamor iddynt.

"Ac oes hir lawn cysuron—boed i chwi,
Byd iach, heb drallodion,
I'ch blaenu âg ochau blinion,
Na churiad un chwerw dòn.

I Rys a'i wiwlwys anwylyd—boed hedd
Y byd hwn mewn hawddfyd;
Gras y nef i'r ddau hefyd,
A rhan o barch mawrion byd.

Wedi uno dau enwog—dymunir
Gwel'd mwyniant godidog;
Aur yn llwyth, arian a llôg,
I'w llesiant yn lluosog."

Ger Llanbedr. CYNONFAB.

Marwgofion.

Bu farw, Tach. 30ain, 1872, yn 63 oed, Daniel Davies, Pantydefaid, Cellan. Claddwyd ef dydd Mercher canlynol yn mynwent Caeronen. Pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. R. C. Jones.

Rhagfyr 25, 1872, ar ol hir gystudd, Mr. David Evans, White Hall, Brechfa, yn 84 mlwydd oed. Gadawodd weddw oedranus a phump o blant, a llawer o wyron, i alaru ar ei ol. Yr oedd yn Undodwr goleuedig. Bu farw fel y bu fyw—yn dawel a chyssurus, a'i ffydd yn ddiysgog mai *un* Duw sydd, a hwnw yn Dad. Bu yn *assistant overseer* yn mhlwyf Llanfihangel-Rhosycorn a Brechfa am flynyddau meithion, a llanwodd ei swydd gyda pharch. Os byddai eisiau ysgrifenu llythyr at feistr y tir neu at berthynas yn America neu Awstralia, byddai yn barod bob amser i wasanaethu ei gymmydogion, ac ennillodd trwy hyny serch calon y rhai oll a'i hadwaenent.

Ionawr 7, yn y Garth Hall, Llanfabon, Mr. Howel Thomas, wedi byr gystudd, yn 81 mlwydd oed. Bu yn byw yn Lletty Turnor, ger Mountain Ash, am dros 49 o flynyddau, lle y bu yn llwyddianus iawn fel amaethwr. Gan ei fod yn ddyn mor ddeallus mewn amaethyddiaeth, ymgynghorai llawer o bell ac agos âg ef ar hyny o beth. Yn 1863, gorfuwyd ef i ymadael a'r lle yr oedd efe, ei wraig, a'i blant wedi ymserchu mor fawr ynddo, yn herwydd i'r Meistriaid Nixon a'i Gyf. ei gymmeryd oddiarno. Hawdd ddigon y credir ei fod yn flin ganddo i gefnu ar y maes oedd wedi bod yn llafurio arno cyhyd. Gadawodd i alaru ar ei ol, weddw sydd yn bur amddifad, ac mewn gwth o oedran, a chwech o blant. Y Mawrth canlynol, daeth yn nghyd dorf luosog o berthynasau ac ereill i'w hebrwng i'r distaw fedd yn mynwent Llanfabon.—W. J.

Chwef. 25, Gwenny Beynon, Tygwyn Bach, yn 84 mlwydd oed. Claddwyd h y dydd Iau canlynol wrth Eglwys Llanguick. Yn y ty cyn cychwyn, pregethod

y Parch. J Evans, Gellionen, oddiwrth Ioan xii. 47; ac yn yr eglwys, gweinyddwyd gan y Parch. D. Jones, B.A., *Vicar*. Gadawodd weddw ar ei hol ryw flynyddau yn henach na'i hunan. Bu yn aelod am flynyddau yn y Gellionen, ac yn gofalu am y capel. Bu fyw ar dir Penlan, yn yr un bwthyn oddiar pan y priododd gyntaf, pan yn 22ain oed, hyd ddiwedd ei gyfra yn ddison am dani, ond â gair da gan bawb iddi am ei pharodrwydd a'i chymwynasgarwch.

Chwef. 28ain, yn Marcross, ger Penybont-ar-Ogwy, John Jenkins, amaethwr, yn 70 mlwydd oed. Pan yn esgyn i'w gerbyd i fyned adref o arwerthfa goed yn y Wig, y 26ain o Ionawr, tasgodd y ceffyl a rhuthrodd rhag ei flaen nerth ei arau nes dyfod i dro yn yr heol, pryd y dymchwelodd y cerbyd, a chafwyd yr ymadawedig odditano. Wedi ei gario i'w dy, cafwyd ei fod wedi tori rhai o'i asenau, ond ni feddyliai neb pryd hyny y buasai y ddamwain yn un angeuol. Yr oedd yn un o warcheidwaid ei blwyf, lle y perchid ef yn fawr fel dyn tawel a synwyrol, cydymdeimladol, a pharod i wneyd cymwynas. Arferai gyd-addoli yn nghapel y Wig, a rhoddai law o gymhorth yn fynych at yr achos yn y lle. O gylch wythnos cyn cefnu ar y byd, dywedodd wrth ddosbarthwr yr YMOFYNYDD y derbyniai ddau gopi o'r gyfres newydd, ond nid oes eisiau yr un arno ef yn awr. Rhoddwyd ei weddillion ef y Mercher canlynol gyda'i dadau yn mynwent Marcross hyd foreu y codi.

Darnau Byrion.

FFYDDLON I'W FAM.

CANODD Frederick III., brenin Prwssia, y gloch un boreu, a chan nad atebodd neb hi, agorodd ddrws ei ystafell, ac aeth i ystafell arall, lle y cafodd ei was yn cysgu yn dawel ar gadair. Aeth yn mlaen ato i'w ddihuno, ond wrth ddynesu gwelai apyr yn ei logell, ar yr hwn yr oedd rhywbeth wedi ei ysgrifenu. Gan fod y brenin yn awyddus am wybod beth oedd, aeth yn araf a dystaw yn mlaen, a thynodd ef allan ac a'i darllenodd.* Deallodd mai llythyr oedd oddiwrth fam ei was, cynnwysiad yr hwn oedd yn agos fel yma:—"Yr wyf yn cyflwyno fy niolch i fy mab am yr arian oedd wedi cynnilo o'i gyflog a'u hanfon i mi, ar amser pan oedd gwir angen arno am danynt ei hunan. Bydd Duw yn sicr o'i wobrwyo am danynt, ac os ymdrecha â'i holl egni i wasanaethu Duw a'r brenin, nis gall lai nâ bod yn ddedwydd yn y byd hwn a'r byd a ddaw." Wedi i'r brenin ddarllen y llinellau uchod, aeth yn ol i'w ystafell yn araf a dystaw, a daeth â llonaid dwrn o arian, ac a'u gosododd gyda'r llythyr yn llogell y gwas. Yna canodd y gloch drachefn, mor uchel fel y dihunodd ef, a daeth i'w ystafell "Yr ydych wedi bod yn cysgu yr wyf yn coelio," ebe y brenin. Ni wadodd y gwas hyny, ond gan wneuthur rhyw esgus, gosododd ei law megys yn ddamweiniol yn ei logell, a theimlodd yr arian. Tynodd hwynt allan, trodd yn welwlas, ac yna edrychodd ar y brenin a dagrau ar ei ruddiau. "Beth sydd yn bod? Beth sydd yn peri i chwi fod yn y fath gyffro ac mor anesmwyth?" "Ah," ebe y gwas, "y mae rhywun wedi ceisio fy nistrywio i; nid wyf fi yn gwybod dim am yr arian yma." "Nac ofnwch," ebe y brenin, "y mae pob peth yn iawn; anfonwch yr arian i'ch mam; cofiwch fi ati, a dywedwch wrthi y gofalaf am dani hi a'i mab."—*Lloffyn i'r* YMOFYNYDD *oddiwrth Alice J.*

[* Ymddygiad gwael oedd hwn o eiddo y brenin. Nid oedd gan y brenin fwy o hawl i fyned i boced ei was, nag oedd gan y gwas o hawl i fyned i boced y brenin.—GOL.]

Y GOLOFN O NIWL A THAN.

Exodus xiii. 20.

Mewn llythyr yn yr *Athenæum* am Chwef. 15, 1873, dywed Charles Beke fel yma:—"Ar Djebel Dubbeh, dri neu bedwar mis yn ol ar ol y ffrwydriad mawr, gwelwyd pedwar *crater* ar bymtheg, ac o'r rhai hyn (yn ngeiriau llygad-dyst) 'y mae deunaw yn mygu yn y dydd, ac yn y nos yn rhoddi goleu megys lamp.' Aralleiriad anymwybodol o eiriau yr Ysgrythyr yn nghylch ffrwydriad Mynydd Sinai, 'A'r Arglwydd oedd yn myned o'u blaen hwynt y dydd mewn colofn o niwl, i'w harwain ar y ffordd; a'r nos mewn colofn o dân, i oleuo iddynt.' Ni ddylai, gan hyny, fod dim ammheuaeth am y ffaith mai *volcano* ydyw Mynydd Sinai, yr hwn, er ei fod yn awr er ys hir amser yn llonydd, oedd y pryd hwnw mewn cyflwr o fywiogwrydd; ac yn mhellach, y mae pob lle i gredu fod y mynydd hwn yn ffurfio rhan o'r Harra Radjla, yr ardal ddiffaeth, ddilwybr, volcanaidd,"

CONGL YR YSGOL SUL.

GAIR I'R ATHRAWON.

Byddwch yn yr ysgol, nid yn unig mewn amser, ond bob amser. Dangoswch i'ch ysgolheigion y gallant ymddiried ynoch trwy gyfarfod â hwynt yn rheolaidd bob Sul. Gadewch iddynt wybod, os bydd eich sedd chwi yn wag, mai o herwydd afiechyd neu ryw achos sylweddol arall, y mae hyny yn dygwydd. Nis gall dim ddirywio dosparth yn gynt nac mor effeithiol âg athraw nas gellir ymddiried dim ynddo; nad faint ei ddoniau, ei dalentau, a'i gymhwysderau, athraw gwael a diddylanwad er daioni ydyw. "Ni charwn i ddim i fy mhlentyn i," medd Richard Jones, "i fod dan ei ddylanwad, rhag ofn iddo ei wneuthur yn ddyn nas gall neb ymddiried ynddo." O'r tu arall, y mae dylanwad moesol esiampl athraw ffyddlon yn dylanwadu er daioni anrhaethol ar ei ddosparth. Gwyr y plant bychafn y bydd ef yn yr ysgol bob amser, ac mewn amser, —na fydd i'r gwynt na'r gwlaw, y llaid, ychydig anwyd, nac aelodau blinedig o herwydd llafur ddoe, ei gadw ef gartref. Mae ganddynt ymddiriediaeth yn ngair y fath athraw, ac y mae ei ymddygiad megys yn llefaru yn ei hymddygiadau hwy yn ol llaw.

Dylai fod gan bob plentyn achos i ddweyd, "Os na fydd neb arall yno, yr wyf yn credu y bydd fy athraw i yno."

"Darfu i mi unwaith," meddai Thomas Morgan, "weled boneddiges ieuanc o gyfoeth a chwrtaith yn cerdded yn agos i ddwy filldir i ysgol Sul Capel y Mynydd trwy y gwlaw a'r llaid, a gofynais iddi, "A ydyw yn talu y ffordd i chwi i fyned mor bell ar ddiwrnod mor arw ag ydyw heddyw?' Dywedodd mewn atebiad, 'Ni feiddiaf fi, er dim, siomi fy nosparth.' A phan aeth i mewn i'r ysgoldy, yr oedd yno wyth o fechgyn bychain, troednoeth, wedi dyfod yn nghyd, ac yn dysgwyl mor awyddus am eu hathrawes ag y dysgwylia adar bach ar eu nyth am ymborth gan eu rhieni, a dywedodd un o honynt wrth y lleill, 'Wel, gwyddwn y buasai hi yn sier o dd'od. Mi ddala i ddimai y byddwn ni oll yma bob amser o hyn allan.' Rhoddodd ei hesiampl hi y dydd hwnw ddylanwad nerthol ac anorchfygol i'w geiriau."

Na siomwch eich dosparth ar un cyfrif byth. P. A. F.

TOSTURIWCH WRTHO.

Y mae '*Poor Rector*' yn ysgrifenu i'r *Times* i achwyn ei fod ef yn cael ei orfodi i gyfranu £1 14s. 6ch., at 'Queen Annne's Bounty' allan o salary flynyddol o £250 Diben y *Bounty* yma yw gwellhau ychydig ar fywiolaethau bychan. Nis gallwn la na thosturio wrth y *Poor Rector* a dymuno gael gwasanaethu blwyddyn neu ddwy yn un o'n capelau ni—dyweder yn Sir Gaer neu Sir Aberteifi. Tueddai hyny ef, o bossibl, i fod yn fwy boddlawn ar ef gyflwr.

Y "DYWYSOGAETH" ETTO.

Mae'r paragraph canlynol oddiwrth ohebydd Silian y *Dywysogaeth* am Mawrth 8, 1873:—STRIKE—Y mae si ar led fod gweinidog un Capel — raid, o fewn can milltir i Llanbedr, wedi sefyll allan am fwy o gyflog. Dywedir mai £5 y flwyddyn oedd ei gyflog! Y mae rhagor i'w ddyweyd dros y "Strike" hyn, onid oes, na strike Gwent a Morganwg? Efallai y bydd gan *Yr Ymofynydd* ag sydd yn cael ei advertiso yn y *Dywysogaeth*, y bydd iddo adgyfodi ar y cyntaf o Fawrth, rhywbeth i ddyweyd am y "Strike" uchod.

[Dymuna *Yr Ymofynydd* awgrymu yn barchus fod gohebydd y *Dywysogaeth* i gymmeryd mewn llaw i ddyfeisio rhyw ffordd i gael gyd â'r 'Poor Rector' a'r gweinidog sydd wedi bod ar *strike* i gyfnewid lle am flwyddyn neu ddwy. Dichon y gall hyny fod ar heddwch i eneidiau pob un o'r ddau yn gystal a lles i'r cynnulleidfaoedd.]

GWLAW 1872.

Rhifedi'r dyddiau y gwlawiodd oedd 234, a chyfanswm y gwlaw 45 modfedd, neu 10 modfedd yn agos, yn uwch na'r un flwyddyn yr 20 mlynedd diweddaf, a mwy na 16½ modfedd yn uwch na'r *average* yn ystod y 19 mlynedd diweddaf. Y mae 45 modfedd i droedfedd sewar yn gyfartal i i 4550 yr erw. Wedi'r cwbl y mae cyfartalrwydd gwlaw y 10 mlynedd diweddaf yn llai na'r 10 cyn hyny. Yr oedd 1816 a 1817 yn flynyddau gwlyb iawn, ond nid oes dim cyfrif am fesur gwlaw y blynyddau hyny.

Barddoniaeth.

AR OL.

Ar ol y gafod, cawn deg wenau haul;
Ar ol yr eira, blodau gawn a dail;
Ar ol y dydd, fe ddaw y siriol ser;
Ar ol cynauaf, grawn a ffrwythau per.

Ar ol cymylau, wybren las a chlir;
Ar ol ystorm, tawelwch dros y tir;
Ar ol y gwynt, daw cangau'r coed i hedd;
Ar ol y frwydr y daw y tawel fedd.

Daw clych priodi, ar ol clych angeu prudd;
Ac ar ol blagur, rhosyn teg ei rudd;
Ar ol ffarwelio, daw groesawiad llon;
Ac ar ol wylo, hedd a ddaw i'r fron.

Ar ol y baich, y wobrwy'n ddiau ddaw;
Ar ol ehedfan, pluog nyth rhag gwlaw;
Ar ol yr aradr, ceir adfywiol had;
Ar ol yr hen Iorddonen—nefol wlad!

REES JOHNSON.

CALW DY LYGAD AR FUSNES DY HUN.

Gwell ydyw i bob dyn wrth deithio trwy'r byd;
Beth bynag y cyfiwr, y lle, neu y pryd,
Yw peidio ag edrych i helynt un dyn,
Ond cadw ei lygad ar fusnes ei hun.

Gwell yw i bob dyn, na hela ra thrin,
I gadw ei lygad ar fusnes ei hun.

Mae llawer o ddynion i'w gwel'd ar bob llaw;
A wyddant holl hanes y byd drwyddo draw;
Ac etto pe'u holech, chwi gaech nad oes un
A wyr yr un mymryn o'i fusnes ei hun.

Gwell yw i bob dyn, &c.

Cewch weled hen wreigan a'i hosan a'i gwall
Yn teithio yn galed o un ty i'r llall;
A dyben y cyfan—mae 'idd'wedyd yn flin,
Yw trafod helyntion a busnes pob dyn.

Gwell yw i bob dyn, &c.

Peth syn ydyw gweled rhyw eneth fach ddel,
Yn siarad yn rgl efo pob dyn "fel a'r fel,'
Gwell gwell fil o weithiau a fyddai i'r fun,
I chwalu ei 'mhenydd wrth fusnes ei hun.

Gwell yw i bob dyn, &c.

Os ydych am lwyddo yn mhob beth a wnewch;
Cymerwch amynedd—a llwyddiant a gewch:
A pheidiwch ac edrych i helynt un dyn,
Ond cadwch eich llygad ar fusnes eich hun.

Gwell yw i bob dyn, &c.

CARDI GLAN CERDIN.

Le'rwl.

Y CRYD.

Cwch wrth raff serch craff, yw cryd,—yn
Yn Lafan hoff mebyd; [yn nofio
Anfon laban o'i wynfyd
Wna hwn i for ein hen fyd.—*Moruyllt.*

JENKIN HOWELL, ALGRAFFYDD, ABERDAR.

BWRDD Y GOLYGYDD.

Mewn Llaw:—Paul, Dyfalbarhad, Cariad Crist'nogol, Edrych i fyny, Gwanwyn, Amryw farwgofion, Fy hen *slate*, Llenleidr arall yn y ddalfa.

Yn Addawedig:—Greeley, Joan D'Arc; *Strikes*, gydag awgrymiadau i'w gochelyd; Y Temlwyr Da, gan *Good Templar*.

EIN RHIFYN DIWEDDAF.

Diangodd rhai gwallau rhyngom ni a'r cyssodydd. Tudalen 4, yn agos i'r gwaelod, y mae dau air wedi cymmeryd y naill le y llall. Cymmered y darllenydd ei ysgrifell mewn llaw, ac ysgrifened "hadau *bywyd* " ac "ynddo'n *byw*." Tud. 9, ll. 4, darllener "ar wddf *achos* Iesu, &c." Tud. 21, testun Mr. James oedd Job iii. 17. Yr ydym wedi derbyn nodyn oddiwrth Cynonwyson yn cyhuddo Cynonfab (gwel tud. 20) o lenladrad. Fe welir y penill "Anhyfryd siomiant a phob loes," &c.," yn *Ymofynydd* Ebrill, 1848, tud. 192. Ond y mae yn rhaid i ni ryddhau Cynonfab, canys mae'r penill yn ei ysgrif ef mewn "inverted commas." Ystyriwn nad teg, gan hyny, cyhoeddi llythyr Cynonwyson. Os oes gan rai o'n cyfeillion gopiau o'r rhifyn diweddaf, byddwn yn ddiolchgar am glywed oddiwrthynt,—Nid oes genym yr un ar law.

CWRDD Y PASC.

Mae gweinidog y Gellionen wedi ceisio genym i hyspysu ei fod wedi ei orfodi i ohirio'r cwrdd hyd y 7fed a'r 8fed o Fai, am nad yw y capel yn barod. Ceir hyspysrwydd pellach yn ein nesaf.

☞ Pob archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—

The Editor of "Yr Ymofynydd,"

Mount Pleasant Garden,

Aberdare.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, CARIAD, A GWIRIONEDD.

CYFRES NEWYDD] MAI, 1873. [RHIF 3.

CYNNWYSIAD.

A ydyw dynion yn credu yr hyn a broffesant? 49
Paul 53
Darn Undodaidd Sir Aberteifi 57
Tua'r Aipht a Chanaan 60
Ystyr a dylanwad y Symmudiad Undodaidd 62
Llythyr Grymialydd 65
Y Llyfr Corn 68
Marwgofion 69
Congl yr Holiedydd 70
Gohebiaethau 71
Darnau Byrion 71
Barddoniaeth 72

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1873. [RHIF 3.

Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

A YDYW DYNION YN CREDU YR HYN A BROFFESANT?

PAN oedd Dr. A. yn blentyn bychan, cymmerodd ei dad ef un diwrnod yn ei gerbyd i gryn dipyn o bellder o dref, i glywed rhyw bregethwr a ystyrid yn enwog iawn. Yr oedd y plentyn wedi clywed llawer o siarad am dano gartref, ac o ganlyniad, er ei fod yn ieuanc iawn, credai y buasai yn clywed newyddion da o'r byd anweledig, a gwrandawai yn astud a difrifol ar y bregeth. Pregeth iawn-ffyddol hollol ydoedd. Darluniai y pregethwr, mewn geiriau desgrifiadol, gyflwr colledig dyn, ei lwyr-ymroddiad i ddrygioni, ei analluogrwydd i'w ochelyd, a chynllun iechydwriaeth sydd yn cael ei ddal allan yn Nghrist i'r rhai ddymunent ochelyd y llid a fydd. Yn nhyb y pregethwr, ymddangosai melldith yn gorphwys ar y ddaear, a thywyllwch a dychryn ar wyneb natur. Synodd ac arswydodd y bachgen wrth glywed y fath bregeth. Meddyliai y buasai pob dyn a gredai yr athrawiaethau yma yn ymwrthod â'r byd bellach, a rhoddi ei hunan i fyny i ymofyn am yr iechydwriaeth uchod, ac na fuasai un pleser na mwyniant daearol ddim yn denu ei sylw am gymmaint a moment mwyach. Pan oedd y bregeth drosodd, aeth y gwrandawyr allan, a dywedodd ei dad mewn atebiad i sylw oedd wedi cael ei wneyd gan gymmydog ar y bregeth, mai pregeth o'r iawn ryw ydoedd. "Athrawiaeth iachus, syr," meddai. "A ydyw yn wir i gyd, gan hyny?" oedd y gofyniad prysur a ymgynnygodd i feddwl y bachgen. Teimlai ei galon yn llesghau; dymunai siarad â'i dad, a dysgwyliai iddo ef i siarad yn nghylch yr athrawiaeth ddychrynllyd yma. Aethant i'r cerbyd, ac yn mlaen ar eu taith; ond gan fod y bachgen yn synfyfyrio,

nis gallasai yngan un gair. Yn fuan, dechreuodd ei dad chwiban! Maes law, cyrhaeddasant y ty; ond yn lle galw y teulu yn nghyd i siarad â hwynt yn nghylch y newyddion prudd a roddodd y pregethwr, eisteddodd ei dad i lawr wrth y tân, cymmerodd ymaith ei esgidiau, gosododd ei draed ar y pentan, a dechreuodd ddarllen ei newyddiadur gyda'i ddiofalwch arferol. Synodd y bachgen yn fawr ar y cyntaf, ond gan na chwenychai siarad, ni ofynodd am un esboniad. Yn fuan iawn, modd bynag, ymgynnygodd y gofyniad drachefn i'w feddwl, "A allasai yr hyn a glywodd fod yn wir?" Atebodd ei hunan. Na! nid oedd ei dad yn credu yr hyn oedd wedi glywed, ac nid oedd pobl ereill yn credu y fath wrthuni, ac nid oedd wir. Teimlai, mewn gair, ei fod wedi cael ei dwyllo. Daeth i'r penderfyniad nad oedd y dynion fu yn gwrando y pregethwr, os oedd y pregethwr ei hunan, ddim wedi meddwl na myfyrio ond ychydig iawn ar yr athrawiaeth oeddynt yn proffesu ei chredu. Teimlai nad oedd dim possibl fod dynion yn gallu credu yn drwyadl yr hyn oeddynt yn gyffesu â'u tafod. Felly hefyd y mae yn bod gyda golwg ar lawer o opiniynau ac athrawiaethau sydd yn cael eu pregethu yn y mwyafrif o eglwysi, a'r rhai mae dynion yn gyffredin, yn rhyw fodd, yn ystyried yn "athrawiaethau iachus."

Sylwn ar y modd y mae llawer o bobl grefyddol yn siarad yn fynych yn nghylch y byd hwn. "Byd drygionus, a diffaethwch gwyllt ydyw." "Math o garchardy ydyw." "Nid oes dim ag sydd yn hardd a swynol ynddo." "O! 'r fath le annedwydd ydyw!" Dyma fel mae dynion yn siarad yn gyffredin, ond nis gallwn ni gredu eu bod yn siarad felly gyda difrifoldeb. Nis gallwn ni gredu eu bod wedi ystyried na meddwl dim am y priodoldeb na'r anmhriodoldeb o siarad felly. Meddai ereill, "Ni ddylai neb fwynhau a charu y byd hwn, ac ni ddylem feddwl dim am dano ond mor lleied ag sydd bossibl, ac allan o'r hwn y dylem ddymuno ar Dduw i'n cymmeryd ato ei hun mor gynted ag sydd ddichonadwy." Wrth glywed y cyfryw yn siarad felly, gellid meddwl mai byd y diafol ydyw, ac nid byd da ein Duw trugarog a chariadlawn. Dywedodd dyn duwiol iawn wrthym ychydig amser yn ol, "Yr ydych chwi yr Undodiaid yn hollol gyfeiliornus. Yr ydych chwi yn ymdrechu gwella y byd: nid yw hyny o un dyben: yr unig beth sydd i'w wneuthur ydyw ymdrechu achub cymmaint a ellir o eneidiau oddiwrtho, a'i adael i fyned i ddystryw!" Etto i gyd, wrth sylwi ar fywydau y sawl sydd yn siarad felly, nid ydym yn cael eu bod yn wahanol i ddynion ereill. Nid ymddengys eu bod yn caru y byd yn llai nâg ereill. Y maent yn gwneyd eu gwaith, ac yn gofalu mynu eu talu am dano, ac yn ymdrechu gwneuthur eu hunain mor llwyddianus ac mor gyssurus ag y medrant. Nid ydynt efallai yn myned i redegfeydd ceffylau, nac i chwareudai; ond y mae ganddynt eu pleser a'u mwyniant eu hunain, ac fe wyr pawb fod digon o amrywiaeth o ddigrifwch a phleserau yn y byd da hwn. Pan nad yw eu cyfeillion yn iach, y maent yn gweddïo ar Dduw i'w hadferyd i'w hiechyd; ac os cânt eu cymmeryd ymaith, maent yn wylo yn llawn mor drist ar eu hol ag ereill. Nis gallwn lai nâ gofyn a ydynt yn